Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 540 · Mawrth 2023 · 50c

Ffotograffiaeth Kristina Banholzer

Pijin – O Pesda i Pontio

Lisa Jen Brown ac Owen Alun yn Pijin.

Daw dau ddathliad pwysig ym Mis Mawrth. Yma yng Nghymru cawn ddathlu ein nawddsant, ac yn fyd eang bu dathlu Diwrnod Rhyngwladol y Merched. Felly dyma i chi gyfrol arbennig sy'n dangos sut bu'r Dyffryn yn dathlu Dewi Sant, ac sydd hefyd yn tynnu sylw at waith arbennig rhai o ferched ein cymuned.

Nofel a'i gwreiddiau yn Nyffryn Ogwen, sydd bellach ar daith hyd llwyfannau Cymru.
Dyma glywed gan rai o'r merched sydd yn rhan o'r cynhyrchiad.

Mae'r nofel Pigeon gan yr awdures leol Alys Conran, yn gyfarwydd i ni gyd bellach. Ers ei gyhoeddi nol yn 2016 mae wedi ennill gwobrau lu gan gynnwys Llyfr y Flwyddyn 2017 (Saesneg) Gwobr Ffuglen Rhys Davies, gwobr Barn y Bobl Wales Arts Review, a chyrraedd rhestr fer Gwobr Ryngwladol Dylan Thomas, a rhestr hir yr Authors Club First Novel Award.

Yn ddiweddar addaswyd y nofel yn sioe lwyfan, gan agor ar lwyfan Pontio gychwyn Mawrth, ac mae bellach ar daith ledled Cymru.

Un o ser y sioe ydy Lisa Jen Brown, sy'n chwarae nifer o gymeriadau ynddi, ac yn mwynhau'r profiad o 'newid egni a trio dod â phetha gwahanol i mewn i gymeriadau gwahanol'. Daeth Lisa ar draws Pigeon a Pijin gyntaf yn Siop Ogwen, fel nifer ohonnom mae'n siŵr. Medd Lisa

"O'n 'i yn y siop yn edrych o gwmpas a mi ddois ar draws Pijin a sylweddoli bod hi wedi ysgrifennu yn y ddwy iaith. Roedd gen i ddau lyfr yn fy llaw, un yn Gymraeg ac un yn Saesneg a dyma fi'n penderfynu darllen yr un Saesneg gan mai hwnna oedd be oedd Alys wedi, yn reddfol, sgwennu gynta. Dwi'n cofio ei ddarllen yn eitha sydyn ac mi gafodd effaith arna i gymaint a gath Un Nos Ola Leuad."

Yn anarferol, cyhoeddwyd Pigeon yn y ddwy iaith ar yr un pryd, gyda Sian Northey yn addasu'r testyn gwreiddiol i greu'r gyfrol Gymraeg, Pijin. Mae'r dwyieithrwydd yma yn plethu drwy'r addasiad llwyfan mewn ffordd drawiadol.

Bethan Marlow sy'n gyfrifol am yr addasiad sydd, yn ôl Lisa, yn 'gampwaith'. Dywedodd Bethan fod addasu'r nofel, sydd wedi bod yn hynod boblogaidd, wedi bod yn "anrhydedd ac yn anodd!" Parhaodd i egluro: "Braint mawr ydi ca'l chwara' hefo'r stori wych yma ond hefyd, pan ma na gymaint o bobol wedi mopio hefo hi'n barod, ma'n gallu bod yn anodd anwybyddu'r ofnau yn dy glust sy'n deud "Be os fydda nhw'm yn licio'r ddrama? Be os fydd hi'm cystal?" Ond mae Lisa Jen, a'r awdur, Alys Conran yn gytun for Bethan wedi gwneud gwaith arbennig.

Gan Theatr Iolo daeth y syniad o addasu'r llyfrau, ac roedd yr awdur Alys Conran, "wrth ei bodd" gyda'r syniad. Yn son am drosglwyddo'r awennau i Bethan a'r criw i droi ei nofel yn sioe, dywedodd Alys:

"…. dwi yn credu'n gry' bod addasu yn gelfyddyd bwysig iawn yn ei hun, a dwi'n credu yn rhyddid artistig y rheini sydd yn addasu. Mae'r addasiadau gorau yn cynrychioli hanfod y gwreiddiol ond hefyd yn waith arbennig, gwreiddiol. Ro'n i isio iddyn nhw deimlo perchnogaeth a'r hawl i fod yn greadigol. Wedi deud hynny os fysa unrhyw linell foesol wedi ei groesi fyswn i wedi bod yno fel shot! Ond dwi wedi bod efo ffydd yn Bethan, Lee a'r tim o'r dechrau. A maen nhw wedi gwneud drama mor bwerus, yn driw i fy nofel ond hefyd mor fyw yn ei hun."

Mae'r ymateb gan gynulleidfaoedd wedi bod yn bwerus a chalonogol hefyd. Teimla Lisa fod y ddrama yn ein cyffwrdd yn emosiynnol ac yn gwneud i ni gwestiynnu, ac

Parhau ar dudalen 3

Yn y rhifyn yma

32 Dyfodol disglair

Dathu Dewi yn Y Dyffryn

18

Llais Ogwan

Rhif 540
Mawrth 2023

Panel Golygyddol

Ieuan Wyn
(Ffôn 600297)
ieuanwyn01@gmail.com

Lowri Roberts
(Ffôn 07815 093955)
l.roberts11@btinternet.com

Neville Hughes
(Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan
(Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard
(Ffôn 07402 373444)
trystanrp1@gmail.com

Walter a Menai Williams
(Ffôn 601167)
waltermenai@yahoo.co.uk

Rhodri Llŷr Evans
(Ffôn 07713 865452)
Rhodri.llyr.evans@gmail.com

Owain Evans
(Ffôn 07588 636259)
owain.evans1@gmail.com

Carwyn Meredydd
(Ffôn 07867 536102)
carwynian@hotmail.com

Rhys Llwyd
(Ffôn 01248 601606) rmll42@live.co.uk

Catrin Wager
(Ffôn 07366 418318)
catrinwager@yahoo.co.uk

Swyddogion

CADEIRYDD
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT (Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

TREFNYDD HYSBYSEBION
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

YSGRIFENNYDD
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH (Ffôn 601415)
garethllwyd197@btinternet.com

TRYSORYDD:
Paul Rowlinson, Crud yr Awel,
Lôn Newydd, Coetmor,
Bethesda LL57 3DT
(Ffôn 01248 605365 / 07949 034967)
PaulJRowlinson@outlook.com

Y Llais drwy'r post:

Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN (Ffôn 600184)
post@llaisogwan.com

Golygydd y Mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan **Catrin Wager**.

Y golygydd ym mis **Ebrill** fydd **Dewi A. Morgan**, Park Villa, Lôn Newydd Coetmor, Bethesda, Gwynedd, LL57 3DT.
01248 602440
E-bost: dewimorgan@live.co.uk

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn**, **1 Ebrill** os gwelwch yn dda.
Casglu a dosbarthu
Nos Iau, **20 Ebrill**,
yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45

DALIER SYLW: NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

CLWB CYFEILLION

Gwobrau Mawrth

£30.00	(151) Lester Bath, Bethesda.
£20.00	(47) Gillian Taylor-Williams, Bethesda.
£10.00	(56) Ann Evans, Penisarwaun.
£5.00	(125) Ann Williams, Gerlan

Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â swyddfa Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru, Bangor (01248 353604).

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:
Gareth Llwyd – 601415
Neville Hughes – 600853

Archebu trwy'r post

Gwledydd Prydain – £22
Ewrop – £30
Gweddill y Byd – £40
Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com
01248 600184

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

post@llaisogwan.com

Dyddiadur y Dyffryn

Mawrth

17 Cyf. Blynyddol Plaid Cymru D. Ogwen. Cefnfaes am 7.00. Gyda Siân Gwenllian AS.
18 Bore Coffi Eglwys Crist Glanogwen. Cefnfaes. 10.00 – 12.00
25 Bore Coffi Plaid Cymru. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
27 Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem. 10.30 – 12.00
27 Te Bach. Festri Carmel Llanllechid. 2.30 – 4.00.
28 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.
29 Cymd. Hanes Rachub. Bryn Evans. 'Sgotwrs Lleol. Clwb Criced am 7.00.
31 Cyngerdd gyda Dilwyn Morgan, Rhys Meirion, Môn Heli, Hogia'r Bonc. Neuadd Rhiwlas am 7.00.

Ebrill

01 Bore Coffi Eisteddfod Gadeiriol D. Ogwen. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
01 Te Bach Pasg. Eglwys Gelli, Tregarth am 1.00yp.
03 Merched y Wawr Tregarth. Noson hwyliog yng nghwmni Bethan Catrin. Festri Capel Shiloh am 7.30.
08 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen. 9.30 – 1.00.
11 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.
13 Y Gymdeithas. Noson yng nghwmni Mari Gwilym. Festri Jerusalem am 7.00.
15 Bore Coffi Carnifal Bethesda. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
17 Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem. 10.30 – 12.00.
20 Noson gasglu a dosbarthu Llais Ogwan. Cefnfaes am 6.45.

Cais am wybodaeth

Mae cais wedi ei dderbyn i geisio canfod gwybodaeth am Jac Tractor oedd yn byw yn Fferm Ciltwllan. Os oes gynnoch unrhyw wybodaeth, os gwelwch yn dda wnewch chi gysylltu â betgarregwen7@yahoo.co.uk

Rhoddion i'r Llais

£20.00	Judith Hughes, Llangoed, Ynys Môn
£14.50	Mr. a Mrs. Stephen Edwards, Ffordd Llanllechid.
£20.00	Gwilym a Helen Owen.
£8.00	Don Hughes, Halifax.
£4.50	Carys Thomas, Rhes Douglas.

Diolch yn fawr

EISTEDDFOD
Llŷn ac Eifionydd
5-12 Awst 2023

#steddfod2023
www.eisteddfod.cymru
0845 4090 900

Pwyllgor Codi Arian Dyffryn Ogwen

Annwyl Gyd-ardalwyr Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau,

Mae pwyllgorau codi arian wedi cael eu sefydlu mewn nifer dda o ardaloedd yng Ngwynedd i gefnogi Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd y flwyddyn nesaf.

Ar gyfer Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, sef ardaloedd cynghorau cymuned Bethesda, Llanllechid a Llandygai, gosodwyd y nod o £6,000. Rydym fel pwyllgor yn anfon at fusnesau, sefydliadau a chymdeithasau lleol gydag apêl am gyfraniadau ariannol, ond mae'r llythyr hwn yn gwahodd aelwydydd i gyfrannu, gan apelio atoch fel unigolion ac fel teuluoedd.

Gwyddom fod cefnogaeth i'r iaith a'r diwylliant Cymraeg yma yn ein dyffryn, a pharch tuag at y traddodiad eisteddfodol yn benodol. Gwyddom hefyd ei bod hi'n argyfwng costau byw ac yn anodd iawn ar sawl teulu. Fodd bynnag, gobeithio'n fawr y byddwch chi, ddarllenwyr Llais Ogwan, yn barod i gyfrannu yn ôl eich modd. Bydd pob cyfraniad, bach neu fawr, yn cael ei werthfawrogi.

Rydym yn hyderus y bydd yr ymateb i'r apêl hon yn un anrhydeddus fel ein bod ni yma yn Nyffryn Ogwen yn gwneud ein rhan i sicrhau eisteddfod genedlaethol lwyddiannus yng Ngwynedd y flwyddyn nesaf.

Yn gywir,

Ieuan Wyn (Cadeirydd)
Rhodri Evans (Ysgrifennydd)

Cyfrannu

Bydd eich cyfraniad yn mynd i gronfa dan ofal Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen cyn i'r cyfanswm terfynol gael ei drosglwyddo i gronfa Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd. Gellir cyfrannu mewn sawl ffordd:

- **Arian parod / siec (yn daladwy i 'Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen') i Donna Watts, Swyddfa Partneriaeth Ogwen, 26 Stryd Fawr, Bethesda, Gwynedd LL57 3AE neu Neville Hughes, 14 Ffordd Pant, Bethesda, Gwynedd LL57 3PA.**
- **Trosglwyddiad banc i gyfrif Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen - HSBC Bangor; rhif didoli: 40-09-03; rhif y cyfrif: 51306413.**

Dilynwch Llais Ogwan ar
www.llaisogwan.com

46ed
SIOE AMAETHYDDOL
DYFFRYN OGWEN

DYDD SADWRN
3 MEHEFIN 2023
CAEAU RYGBI BETHESDA

ADRAN CARTREF
CEFFYLAU / DEFAID / CWN
MABOLGAMPAU
CERBYDAU AC OFFERYNAU HANESYDDOL
STONDINAU / ADLONIANT
www.sioedyffrynogwen.co.uk

Parhad o dudalen 1

mai dyna ydy gwefr theatr da. Fel mai'n dweud:

"Dwi'n meddwl fod pobl yn dod ona wedi hysgwyd, achos mae'r themau yn galed, yn drwm ac yn anodd iawn ar brydiau. Mae pobl yn dod ona wirioneddol wedi teimlo rhywbeth a dyna'n union be ma drama lwyfan, dyna be ma theatr, i fod i'w wneud; ysgwyd pobl a gwneud i bobl feddwl ychydig yn wahanol wrth ddod ona."

Yn ol Alys,

"Ma'r ymateb wedi bod yn arbennig. Yn deimladwy, yn ddwys. Llawer iawn yn deud bod y ddrama yn aros efo nhw am ddyddia, a dyna oedd fy mhrofiad i. Teimlad hiraethus. Teimlad o isio codi a gosod carreg fy hun i gyfrannu at loches i'r cymeriadau. Isio cefnogi pobl ifanc fel nhw sydd yn rhan o'n cymuned ni, a chymuned pawb yng Nghymru."

Mae pwysigrwydd symbolaidd y cerrig yn rhywbeth y gall unrhyw un o'r broydd llechi uniaethu ag o, ac mae naws y dyffrynnoedd llechi yn rhedeg drwy'r gwaith. Yn trafod dylanwad Dyffryn Ogwen ar ei ysgrifennu, dywed Alys:

"Fyswn i fyth wedi sgwennu Pigeon heb y lle 'ma! Da ni'n byw mewn lle mor arbennig, mor unigryw. Dwi'n wir angerddol dros y lle. Ma' Dyffryn Ogwen yn gartra creadigol i fy nychymyg i, a dwi mor, mor ddiolchgar o gael byw yn fanma.

Llun: Anna Milner

Alys Conran

Bethan Marlow

O'r llyfr i'r llwyfan, un peth sy'n drawiadol am Pigeon/Pijin ydy'r cydweithio agos sydd wedi bod rhwng nifer o ferched ar hyd y broses greadigol, gyda pob un yn cyfrannu gogwydd newydd i'r gwaith. Beth sydd hefyd yn glir ydy fod hon yn gampwaith greadidol, pryn bynnag fformat ma rhywun yn ei brofi, sy'n dal naws y broydd llechi, a fydd yn mynd lawr mewn hanes fel gwaith grymus a phwysig o Ddyffryn Ogwen.

Mae Pijin/Pigeon ar daith i:

- **27th Feb - 3 Mawrth 2023**
  Pontio, Bangor
- **7th - 10th Mawrth 2023**
  Theatr Sherman, Caerdydd
- **14th + 15th Mawrth 2023**
  Ffwrnes, Llanelli
- **17th + 18th Mawrth 2023**
  Theatr Mwldan, Ceredigion
- **21st + 22nd Mawrth 2023**
  Canolfan Celfeddydau Aberystwyth
- **24th + 25th Mawrth 2023**
  Galeri, Caernarfon

Llandygái

Iona Wyn Jones, Dyma Fo,
16 Pentref, Llandygái, Bangor
LL57 4HU (01248 354280)
ionawynbangor@gmail.com

Penblwydd
Penblwydd Hapus hwyr i Dafydd Williams, Y Glyn, Llandygai ar ddathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar.

Croeso
Croeso i Jamil a Sophia a'u pedair genod sydd newydd symud i'r pentref. Mae'r genod yn mynychu y sgol y pentref. Gobeithio y byddant yn hapus yn ein mysg.

Braichmelyn

Llongyfarchiadau i Lloer Melangell Gwilym ar ei llwyddiant mewn arholiad piano gradd 2 gyda theilyngdod.
Diolch i Carolyn Williams am ei hyfforddi.

Eglwys Sant Tegai, Llandygai

Dyweddïad
Braf yw cael llongyfarch Huw Llewelyn Jones ar ei ddyweddïad ag Eira Catrin Thomas, Llandwrog. Er yn byw yn Llanberis, mae Huw wedi cadw aelodaeth yn St Tegai ac yn cyfrannu i wasanaethau ar achlysuron arbennig.

Raffl Santes Dwynwen
Wel, mae'r dyddiad cau wedi bod a'r disgwyl drosodd! Yn anffodus, bu rhaid gyrru newyddion yr eglwys i Llais Ogwan cyn i ni gael gwybod enw enillydd y siampên, felly bydd rhaid dal ein gwynt tan y rhifyn nesaf!

Cydweithio â'r gymuned
Mewn cydweithrediad a'r eglwys, trefnodd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol deithiau tywys gan Rhys Mwyn yr archeolegwr o Gastell Penrhyn i'r eglwys ar y dyddiadau canlynol: Sadwrn Mawrth 4, 11eg, 18fed. https://www.facebook.com/NTPenrhynCastle . Roedd y weithgaredd yn rhan o Ŵyl Dewi Bangor 2023. Yn ystod y daith tywys cyflwynodd Rhys gipolwg ar hanes y castell a'i berthynas â'r eglwys a phentref Llandegai. Gobeithir datblygu'r teithiau i fod yn weithgaredd rheolaidd o raglen Teithiau Rhys Mwyn.
Mae'r YG hefyd mewn trafodaeth â'r ysgol eglwys, Ysgol Llandygai, i ddatblygu gardd gymunedol wrth y "Grand Lodge". Wrth gwrs, mae croeso i unrhyw un o'r pentref ymuno yn y brosiect.
Mae'r rhain yn engreifftiau diddorol o St Tegai a'r ysgol eglwys yn ymestyn allan a chyfrannu i'r gymuned.

Gwasanaethau
Ar y Sul
Mae'r gwasanaethau St Tegai am 11.00 ar yr ail a'r pedwerydd Sul yn y mis. Gweler rota eglwysi Bro Ogwen ym mhorth yr eglwys.
Ar Ddydd Mercher
Gwasanaeth 10.15, paned a sgwrs i ddilyn, ar yr ail a'r pedwerydd Mercher yn y mis (sef 8fed a'r 22ain). Os na ddymunwch fynychu'r gwasanaeth, mae dal croeso i chi ymuno â ni am y baned a sgwrs sy'n dilyn. Dewch draw i'r pentref!

Tymor y Pasg
Bydd manylion gwasanaethau tymor y Garawys a'r Pasg ym Mro Ogwen ar gael ym mhorth yr eglwys maes o law.

Manylion Cyswllt
Y Parch Ddr Gareth Lloyd yw ein Arweinydd Bro a Ficer Bro Ogwen, gofynnwn i chi gysylltu'n uniongyrchol ag ef ar 01248361521 neu gareth.lloyd@cantab.net ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys.

Difyrion Digidol Deian ap Rhisiart

Fe soniais rai misoedd yn ôl am adnoddau hanes ar y Wê, a'r tro hwn, dwi am fwrw golwg fanylach a chanolbwyntio ar adnodd cwbl wych a chyfoethog sydd gennym trwy Casgliad y Werin Cymru.

Y frawddeg agoriadol sydd yn eich croesawu i'w gwefan yw: "Rydyn ni'n dal ac yn dathlu cyfoeth hanes Cymru drwy gasglu profiadau pobl gyffredin." Dyma sy'n ganolog i'n treftadaeth fel cenedl, ac i waddol yr iaith Gymraeg. Mae'r wefan hon yn ffordd hawdd o gofnodi profiadau ac atgofion pobl o fewn ein cymunedau er mwyn gwarchod ein etifeddiaeth gyfoethog. (https://www.casgliadywerin.cymru/)

Mae yna sawl prif adran ar y wefan – gallwch olygu a chreu eitemau trwy Rannu, gallwch archwilio'r Casgliad, mae posib hefyd archwilio mapiau o wahanol gyfnodau er mwyn dod o hyd i eitemau; gellir cael Cymorth ar sut i ddefnyddio'r Wefan ac yn olaf, mae'r adran addysg yno i ddarparu adnoddau gwerthfawr i ysgolion.

Fe drown yn gyntaf at olygu a chreu trwy'r adran Rhannu. I ddechrau, mae'n rhaid cofrestru er mwyn gallu ychwanegu eitemau (https://www.casgliadywerin.cymru/user/register). Mae'r eitemau yn gallu bod yn ddogfennau, delweddau, yn gardiau post, yn bamffledi, yn ffeiliau sain, yn fideo, yn luniau cyfredol o henebion neu olion hanesyddol. Yr hyn y mae'r wefan yn ei ofyn amdano yw hanes atgofion pobl trwy eitemau ar ddelwedd, ar fideo neu ar sain. Y mae corff henebion Cadw yn gwarchod yr hanes fwy pell yn ôl fel ein hadeiladau hanesyddol a'n cestyll, tra fod Casgliad y Werin Cymru yn llenwi bwlch yn diogelu ein hanes byw diweddar.

Tra yr ydym wedi trafod uwchlwytho eitemau at greu'r casgliad, mae'r adran Casgliad wrth gwrs yn caniatau i unrhywun archwilio'r casgliad. Dyma lle mae'r cyfoeth o eitemau difyr ofnadwy yn dod i'r golwg. Mae yna dros 154,000 o eitemau yn y casgliad. Mae'r amrywiaeth o eitemau yn anferth ac fe ellir chwilio trwy'r casgliad fesul thema megis Celfyddydau a Diwylliant, Cymuned a Chymdeithasol, Diwydiant a Masnach, Amgylchedd ffisegol ayyb. Gellir hefyd archwilio trwy gasgliadau unigol y ffotograffydd enwog Geoff Charles, hefyd archwilio trwy storiau sydd wedi'u dethol fel taith o amgylch ardal. Ymhlith yr archif, er enghraifft ceir cerdyn post o Eglwys Cybi, Caergybi, Ynys Môn o'r 1920au; llun o'r Aes yng Nghaerdydd ym 1910; Detholiad o'r cyfansoddiadau buddugol yn Eisteddfod Llanelli, 1865 a llawer, llawer mwy.

Mae'r adran Mapiau yn caniatau i chwi chwilio am eitemau yn ôl lleoliad. Mae yna opsiwn hefyd i chwilio trwy wahanol fapiau yn mynd yn ôl i fap 1868-1892 ynghyd â mapiau'r Degwm!

Mae yna bob math o ffilmiau yn croniclo atgofion pobl yma. Beth y mae'r Eisteddfod yn olygu i chi yw un cyfres o ffilmiau yn holi gwahanol bobl. I ddweud y gwir, mae'n anodd meintioli holl gyfoeth y wefan yma mewn ychydig eiriau. Yr hyn yr wyf yn eich argymell yw i fynd a chwilota eich hun. Yn sicr, fyddwch chi yma am amser hir!!

Yr ydym fel rhaglen Cymunedau Digidol Cymru wedi bod yn trafod cydweithio gyda Casgliad y Werin ac mae yna gynlluniau i gynnal cyrsiau Straeon Digidol a sesiynau cyflwyno i wefan Casgliad y Werin mewn llyfrgelloedd ar hyd a lled Cymru. Mae creu Straeon Digidol yn llawer haws heddiw nag oedd hi ddeng mlynedd yn ôl, mae popeth bellach mor hawdd trwy dabled neu ffôn clyfar. Ac mewn byd lle mae pethau'n symud mor gyflym, mae'n holl bwysig cofnodi profiadau ac hanesion pobl cyn iddynt fynd yn angof. Ewch draw i'r wefan i bori drwyddi ac mae'n bosib y gwelwch chi gyfle i gofnodi ryw hanesyn am eich teulu, neu eich hardal leol.
Os hoffech chi gynnal sesiwn hyfforddiant Straeon Digidol yn eich hardal, cysylltwch gyda mi deian.apRhisiart@cwmpas.coop

OGWEN TERRACE, BETHESDA

UN RHES, DAU DDEG DAU O DAI

gan Andre Lomozik

SIOP OGWEN

yn cynnig gwasanaeth

CLIC A CHASGLU

Llawer o Nwyddau Newydd
gan Grefftwyr Newydd
wedi cyrraedd y siop

Hefyd
Llu o gardiau cyfarch ar gyfer pob achlysur. Cysylltwch â'r siop ar yffôn **07394 905881**

neu E-bost siop@ogwen.org
i drafod beth sydd ar gael ac i wneud trefniadau casglu a thalu

CEFNOGWCH WASANAETH LLEOL



Owen's Tregarth

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd

Arbenigo mewn meysydd awyr Cludiant Preifat a Bws Mini

01248 60 22 60 | 07761 619 475

www.owenswales.co.uk

RHAN 6

(Ar ôl marwolaeth Robert Jones, bu nifer o weinidogion yn talu teyrnged iddo yn ei angladd).

Y Parch D. Williams, Garth, Bangor, a dywedai fod yn chwith ganddo feddwl fod y brawd Robert Jones wedi ein blaenu. Ni byddai ef, fel cannoedd eraill, byth yn dyfod i Bethesda heb fynd i edrych am Robert Jones; ond yn awr, "ei le nid edwyn ddim o honno mwy." Dylai'r amgylchiad hwn ein difrifoli. Yr oedd enw y brawd fel wedi gysylltu â Bethesda. Ni fyddai Bethesda yn gyflawn heb Robert Jones. Da iawn gennyf ddeall ei fod wedi gallu gorphen ei *Fynegair Ysgrythorol*.

Y Parch D. S. Davies, Bangor:- Ychydig sydd o amser er pan welais ef cyntaf. Trawodd fi ar y cyntaf fel creadur chwith – yn meddu llawer o wybodaeth, neu ychydig. Yr oeddwn yn gwybod peth am y brawd cyn ei weled. Y mae efe heddiw wedi myned o flaen ei Farnwr. Da gennyf fod y *Mynegair* wedi ei orphen. Yr oedd yn gofyn gallu mawr i gasglu hwn. Ni fûm erioed yn Bethesda heb fod yn ei siop ef yn cael golwg ar hen lyfrau Cymreig. Byddai yn dda gennyf gael siarad, a chael dadl grefyddol ag ef. Byddwn weithiau yn iach iawn yn y ffydd ganddo, a thro arall yn bell iawn o fod felly.

Y Parch E. Stephan a sylwai :- Fod pawb yn adwain Robert Jones, ei fod yntau yn ei adwain er's 32ain o flynyddoedd, ac yr oedd yn barod i *endorsio* pob peth a ddwedwyd yma am dano heddiw. Ond mae un peth na chrybwyllodd neb am dano, ac y byddai yn dda pe ceid ei gyffelyb etto; sef, mai efe oedd tad diwinyddol pobl Bethesda ddeng mlynedd a'r hugain yn ôl; efe a fyddai yn ceisio *mowldio* meddyliau ddiwinyddol y bobl ieuainc yr adeg honno. Yr oedd ef yn Armin mawr, a minnau yn Galfin mawr, beth bynnag ŷm yn awr. Cariodd ei farn ef ddylanwad mawr ar y wlad yr adeg honno. Yr oedd ganddo allu mawr i hyn. Yr wyf yn credu nad oes mwy o Arminiaid yn un rhan o'r wlad gyda'r Annibynwyr nag sydd yn yr ardal hon, a chredaf fod hynny i'w briodoli i addysg Robert Jones. Peth arall, yr oedd yn gyfaill pur, yn hynod o gywir a ffyddlon. Pe byddai llond gwlad yn dywedyd yn erbyn unrhyw ddyn: byddai Robert Jones yn lled sicr o gael gair da i ddywed o'ch plaid. Peth arall rhaid ei ddywed, mai peth braf iawn yw bod yn boblogaidd. Gwelais adegau, pe buasai Robert Jones farw un o'r adegau hynny, y buasai capel eang Bethesda yn rhy fychan i gynnwys o dorf. Cofiwn ninnau mai bychan yw ein poblogrwydd. Adnod fawr ei fywyd oedd "Crist wedi marw dros yr annuwiol." Dyna ei adnod "dros yr annuwiol;" ac adroddodd hon wrth farw.

Y Parch R. S. Williams a sylwai ei fod wedi bod yn byw yn yr un tŷ ag ef am ddwy flynedd, a'i fod yn byw llawer iawn yn agos i'r nefoedd.

Yna awd at y tŷ, ac ar ôl canu emyn, cychwynnwyd yn arafaidd i Eglwys Glan Ogwen. Yr oedd y llenni wedi eu tynnu dros ffenestri y tai a'r masnachdai. Yr oedd yn bresennol yn yr angladd, heb law y gweinidogion a nodwyd y Parchn. J. Morgan, ficer; J. Jones, Brynteg; G. Roberts, Carneddi; M. Roberts, Siloam; y Doctoriaid Hughes a Williams; Huw Derfel, ac eraill.

Darllenwyd y gwasanaeth yn yr Eglwys ac ar lan y bedd, gan y Parch. J. Morgan, y ficer; ac ar ôl canu emyn, gadawsom ein hen gyfaill yn ei ddaearol dy." Dangoswyd llawer o barch ar yr amgylchiad. Yr oedd wedi addaw llawer am roddi darlith ar "Ddeugain mlynedd yn Bethesda" cyn ymadael o'r ardal, a diau y buasai yn ddiddorol iawn. "Ond nid fy meddyliau i yw eich meddyliau chwi." Erbyn heddiw, dyma Bethesda wedi claddu ei Robert Jones, un o'r cymeriadau mwyaf hynod a gweithgar yn y lle. Un Robert Jones a gawn ni, a'n colled ni ydyw os na wnaethom yn fawr o honno. Yr oedd yn elyn mawr i bob trais a gorthrwm, ac i dra-arglwyddiaeth mewn byd ac eglwys. Buasai ef yn uwch yn marn rhai pobl pe yr ymrwymasai iddynt hwy, a dioddef, a chyd-fynd â thra-arglwyddiaeth, ond yr oedd hyn yn groes i'w natur erioed. Fel llyfrwerthwr a dyn i bobl ieuainc, bydd y golled yn amhrisiadwy i ni yn yr ardal hon. Rhoddai fenthyg llyfrau i fechgyn ieuainc meddylgar am ddim i fynd adref. Gadawodd weddw a brawd yma i alaru yn hir ar ei ôl. Heddwch i'w lwch. Gohebydd

Yn *Y Genedl Gymreig* Tachwedd 15, 1877 mae hysbysiad yn ymddangos.

'Bethesda:- Arwerthiant Pwysig AR LYFRAU – STOCK Y DIWEDDAR ROBERT JONES, Bydd Mr John Pritchard yn gwerthu ar Auction, ddydd Sadwrn, yr 17eg o Tachwedd, 1877, ar y premisis, Ogwen Terrace, Bethesda, YR HOLL STOCK WERTHFAWR O LYFRAU, a gasglwyd gan y diweddar Mr Robert Jones, 3 Plas Llwyd-terrace, Bangor.'

Roedd Mary Jones, gwraig Robert Jones, a Moses Jones, brawd Robert, wedi symud yn ôl i Ddwygyfylchi erbyn cyfrifiad 1881, ac roeddynt yn byw yn Caxton House, Moses fel llyfrwerthwr a gwerthwr papurau, a Mary yn disgrifio ei hun fel '*House Keeper*'.

(i'w barhau)

Rachub a Llanllechid

Emlyn Williams, Pont Llan,
Llanllechid, Bangor, LL57 3LE
(07887624459)
henbarc13@gmail.com

Cyngor Cymuned Llanllechid
Cynhalwyd cyfarfod misol y Cyngor Cymuned ar Chwefror 13fed.

Hoffai Cyngor Cymuned Llanllechid ddiolch i Megan Tomos am ei holl waith caled a'i hymroddiad fel Cynghorydd Cymuned dros nifer o flynyddoedd. Mae Megan wedi penderfynu rhoi'r gorau i'w rôl a bydd colled fawr ar ei hôl.

Mae gwaith wedi cychwyn ar osod giât mynydd newydd yn Waen Bryn. Dylunwyd y giat yn draddodiadol i weddu gyda'r tirwedd. Edrychwn ymlaen i weld y giât yn ei holl ogoniant.

Yn dilyn gwahoddiad ceisiadau am nawdd ariannol gan Gymdeithasau/Mudiadau lleol. Penderfynwyd rhoddi l'r canlynol, Llais Ogwan, Theatr Bara Caws, Clwb Criced a Bowlio Bethesda, Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen, Eisteddfod Genedlaethol Llyn ac Eifionydd 2023, Ty Gobaith, Urdd Gobaith Cymru a Clwb Rygbi Bethesda Iau a Mini.

Mae'r Cyngor Cymuned yn chwilio am wirfoddolwyr i helpu gyda chynnal a cadw Cae Peldroed Talybont. Am ymholiadau cysylltwch gyda cyngorllanllechid@ogwen.org

Clwb Hanes
Cafwyd teyrngedau gan ein Cadeirydd, Mr Dilwyn Pritchard i ddau aelod ffyddlon o'r Clwb Hanes a gollwyd yn ddiweddar, sef Mr. Godfrey Northam a'r Dr. J. Elwyn Hughes. Roedd John Elwyn yn hanesydd o'r radd flaenaf yn ogystal ag awdur, ieithydd ac athro ysbrydoledig. Cefnogodd y Clwb Hanes o'r dechrau, gan gynnal nifer o'n cyfarfodydd drwy ddangos hen luniau tu hwnt o ddiddorol o'n hardal, a chynnwys ffeithiau difyr am bob un! Dangosodd Godfrey yntau ddiddordeb mawr yng ngweithgareddau'r Clwb bob amser. Anfonwn ein cydymdeimlad at y ddau deulu.

Croesawyd ein siaradwr gwadd, Mr Dafydd Fôn Williams, gan Dr. John Llywelyn Williams, ac yn wir cafwyd darlith anhygoel a oedd yn amlwg yn ffrwyth ymchwil sylweddol iawn! Roedd 'Lleoedd y Dylluan' yn ddarlith a oedd yn canolbwyntio ar y sgwaryn o dir sydd rhwng Lôn Bach Odro a'r Lôn Bôst a rhwng Rachub a Phantdreiniog, sef hen ystad Coetmor. Roedd tiroedd ym Mangor, Llanfairfechan a Llanfairpwll, hefyd wedi bod yn rhan o'r stad 1500 acer ar un adeg. Ceir cyfeiriad at Goetmor yn un o gywyddau Guto'r Glyn ym 1475, ac yn yr un cyfnod, roedd gŵr o'r enw Robert Fychan yn byw yn y plasdy hardd oedd yn bodoli ar safle presennol fferm Coetmor Uchaf. Roedd teulu Robert Fychan yn ddisgynyddion i Llywelyn ein Llyw Olaf, a brawd ei nain yn brif gadfridog i Owain Glyndŵr, sef Rhys Gethin! Felly mae'n amlwg fod cysylltiadau pwysig iawn gan deulu Stad Coetmor ar y pryd! Priododd Mary Coetmor i deulu Pughe o Hen Neuadd y Penrhyn, ardal Llandudno yn y ddeunawfed ganrif. Daeth y teulu hwn i'r amlwg gan mai hwy fu'n gyfrifol am argraffu'r llyfr Cymraeg cyntaf ym 1587 mewn argraffdy cudd yn Ogof Rhiwledyn ar y Gogarth Fach. Roedd y teulu'n cael eu herlid am fod yn Gatholigion, ac yn gorfod cuddio yn yr ogof am gryn amser!

Bu Plasdy Coetmor yn ganolfan fywiog a phwysig iawn am ganrifoedd, ond dan ofal James Coetmor Pughe, mab Mary Coetmor, dyled ar ôl dyled oedd yn wynebu'r Stad, ac yn y diwedd fe'i llyncwyd gan Stad y Penrhyn. Yn ddiddorol iawn, gellir cysylltu llinach sawl person enwog â theulu Coetmor, gan gynnwys yr Arlywydd Roosevelt, y bardd T. S. Elliot a'r actor Benedict Cumberbatch! Mae hynt a helyntion y teulu anhygoel hwn yn rhy niferus i'w rhestru wrth gwrs, ond mawr obeithiwn y byddwn yn gweld y cyfan yn cael ei gyhoeddi rhwng dau glawr yn y dyfodol! Diolch yn fawr Dafydd!

Capel Carmel, Llanllechid

Gwasanaethau (am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol)
Mawrth 19: Parchg. Sara Roberts.
Mawrth 26: Y Gweinidog.
Ebrill 02: Y Gweinidog (Cymun).
Ebrill 09: Canon Idris Thomas.
Ebrill 16: Parchg, Dewi T. Morris (2 o'r gloch)

Ysgol Sul am 10.30yb.
Clwb Dwylo Prysur bob nos Wener am 6.30yh.

CROESO CYNNES I BAWB

Clwb Dwylo Prysur
Yn ystod gwyliau hanner tymor yr ysgolion, aeth rhai o aelodau'r clwb ar daith i Ynys Môn. Cychwynnodd y bws o Rachub am 1 o'r gloch a mynd i Ros-meirch i ddechrau i weld addoldy achos cyntaf yr anghydffurfwyr ar yr ynys, sef Eglwys Annibynnol Ebeneser, Rhos-meirch. Sefydlwyd yr achos yn 1749 ac fe welir ychydig o olion yr hen gapel ym mynwent yr addoldy presennol. Mi gawsom ni fynd i mewn i'r capel wedyn a chael clywed ychydig o hanes yr achos gan ysgrifennydd y capel, Mr Gwynfor Roberts. Mi gawsom ni weld gweithredoedd y capel. Mae Ebeneser, Rhos-meirch yn gapel hynod o dlws oddi mewn ac mi gawsom ni wasanaeth bach byr yno gan y bobl ifanc i gloi ein hymweliad ni. Diolch i Mr Gwynfor Roberts a Mrs Catherine Williams am y croeso.

Wedyn, mi aethom ni i Oriel Môn yn Llangefni a chael amser difyr yno. Mi welsom ni luniau a gwaith celf hyfryd a chael syniadau newydd ar gyfer ein gwaith ni yn y clwb ar nos Wener. Mewn un ystafell mi gawsom ni gipolwg ar fywyd pobl Ynys Môn ar hyd y canrifoedd ac roedd hynny'n eithriadol o ddiddorol. Mi welsom ni bedair telyn hynafol a gwrando ar dâp o geinciau Cymreig yn cael eu canu ar delynnau. I gloi'r ymweliad, mi gawsom ni fwyd a diod yn y caffi a mynd i weld a phrynu ambell I beth yn siop yr Oriel a oedd yn llawn o bethau diddorol i'w prynu. Mi gawsom ni bnawn hapus efo'n gilydd a diolch i Mrs Wendy Jones am ddod efo ni.

Dymunai Alis a Siwan Bryn ddiolch i bawb am eu cydymdeimlad yn dilyn colli eu hannwyl fam Margaret Bryn yn ddiweddar. Gyda diolch arbennig i'r Parchedig John Pritchard, y Parchedig Dafydd Coetmor Williams, Mrs Helen Williams a Gareth Williams, yr ymgymerwr am eu cymorth a'u gofal.

Fe gasglwyd £500 i Gapel Carmel er cof am Margaret Bryn.

Capel Ebeneser, Rhos-meirch gyda'r bobl ifanc a Mr Gwynfor Roberts yr ysgrifennydd

Y bobl ifanc o flaen cerflun o Kyffin Williams y tu allan i'r oriel

Talybont

Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda (600853)
Barbara Jones, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

Llongyfarchiadau
Mae Kian Hughes, mab Jason, 5 Cae Gwigin, yn beldroediwr o fri.

Yn 16 oed ennillodd ysgoloriaeth, dan nawdd Clwb Pêldroed Nomads Cei Conna, i astudio ar gyfer ei arholiadau Lefel A yng Ngholeg Cambria, tra'n chwarae i dîm dan 19 y Nomads. Roedd hynny'n golygu symud i fyw i lannau Dyfrdwy; cam go fawr i hogyn mor ifanc.

Erbyn hyn, ac yntau ar ei ail flwyddyn yn y Coleg, cafodd Kian ei ddewis gan Gymdeithas Pêldroed Ysgolion Cymru i ymarfer efo'r tîm o dan 18 oed.

Ar Chwefror 23ain, hedfanodd gyda'r garfan i Rufain i gymryd rhan yng nghystadleuaeth ryngwladol Roma Caput Mundi. Yn ogystal â mwynhau'r profiad o chwarae yn erbyn tîmau o wledydd tramor, cafodd yr hogiau gyfle i adnabod Bologna ble roeddynt yn aros.

Ers canol mis Ionawr, mae Kian wedi ymuno â Chlwb Pêldroed Porthmadog, lle mae ei ddawn eisoes yn tynnu sylw.

Dymunwn bob llwyddiant iddo. Os yw ymroddiad a dyfalbarhad Kian yn nodweddiadol o'n chwaraewyr ifainc heddiw, mae dyfodol tîm pêldroed Cymru yn edrych yn ddisglair iawn.

Brysiwch wella
Dymunwn wellhad buan i Dr. Neville Fearnley, 'Helyg', sydd wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd yn ddiweddar. Mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn anodd i Neville, ond fydd o byth yn cwyno, dim ond diolch i bawb am bob cymwynas. Gobeithio daw'r Gwanwyn â iechyd gwell iti, Nev, a chyfle iti a Mag fwynhau'r tywydd cynhesach.

Capel Bethlehem

Oedfaon (am 2 o'r gloch)
Mawrth 19: Parchg. Dafydd Coetmor Williams.
Mawrth 26: Y Gweinidog.
Ebrill 02: Parchg. Trefor Lewis.
Ebrill 09 (Sul y Pasg): Y Gweinidog (Cymun).
Ebrill 16: Parchg. R. O. Jones.
Ebrill 23: Y Gweinidog.
Ebrill 30: Parchg. Eric Jones.

Croeso cynnes i bawb.

Apêl Trychineb Daeargryn Twrci-Syria
Mae aelodau'r Capel yn dymuno diolch yn fawr iawn i bawb a gefnogodd ein Noson Goffi ar 1af Mawrth.

Diolch am y rhoddion ariannol hael o bron i £750, yn ogystal â'r holl roddion eraill ar gyfer y byrddau gwerthu a'r raffl. Gwnaed elw ardderchog o £1,300 (y cyfanswm hyd yma) tuag at helpu'r trueiniaid sydd wedi dioddef mor enbyd. Diolch hefyd i'r aelodau a chyfeillion a fu'n gweithio mor galed i sicrhau llwyddiant y noson.

Cofnodi Enwau Lleol
Hyd a lled Gwynedd, mewn sgyrsiau bob dydd, mae hen enwau lleol ar lefydd yn cael eu defnyddio. Enwau rhyw hen lwybrau tarw, strydoedd cefn, rhyw fryncyn lleol neu dro mewn afon. Mae'r rhain yn enwau sydd wedi eu defnyddio ar lafar gan genhedlaeth ar ôl cenhedlaeth o Gymry Cymraeg ond sydd erioed wedi cyrraedd unrhyw fapiau swyddogol. Maen nhw'n gyfoeth o hanesion ac yn rhan annatod o dirlun ieithyddol y sir. Er mwyn ceisio cofnodi'r enwau pwysig hyn mae Cyngor Gwynedd wedi creu Map Enwau Lleol a lansiwyd ddiwedd Medi 2022. Map digidol ydi o sydd eisoes yn cynnwys enwau caeau, traethau, clogwyni, tyllau crancod ac ogofâu yn ardaloedd Abersoch a Thudweiliog, Llŷn a hynny'n sgil cyd-weithio gyda disgyblion ysgolion cynradd lleol.

Y nod rŵan yw poblogi'r map â llu o enwau tebyg ond ar draws y sir. Mae cynlluniau ar y gweill i Meirion MacIntyre Huws, Swyddog y Prosiect Enwau Lleol, ymweld â ag ysgolion ledled Gwynedd ond da fyddai hefyd dod i hyd i unigolion cymwys i gyfrannu enwau a gwybodaeth.

Meddai Mei, 'Mae gan bob un ohonom enw lleol ar lefydd o fewn ein milltir sgwâr, enwau unigryw sy'n drwm o chwedloniaeth leol, straeon gwerin a digwyddiadau hanesyddol. Biti garw fyddai i'r enwau hynny ddiflannu wrth i bobl symud o un ardal i'r llall i fyw.'



Cofio Elina,

neges gan Annes Glyn
Pan sefydlwyd dosbarth cynganeddu yng Nghanolfan y Cefnfaes yn 2004 dan arweiniad Karen Owen, Elina Owen oedd un o'r disgyblion cyntaf. Y ddwy arall oedd Elinor Gwynn a minnau. Roedd Elina eisoes yn brofiadol yn y maes ond oherwydd ei natur fwyn wnaeth hi erioed fanteisio ar hynny i fflawntio ei dawn. Ei rannu'n ddiymhongar a wnaeth hi.

Pleser oedd bod yn ei chwmni hwyliog yn y dosbarth ac, yn ddiweddarach, fel rhan o dîm Talwrn Yr Howgets. Mae gen i atgofion hapus o un cyfarfod dosbarth arbennig yn Y Wernos a chroeso Elina yn nodweddiadol gynnes a mamol. Doedd ei gwên ddireidus fyth ymhell, o'i gwefusau na'i llygaid.

Braint fu cael ei hadnabod a 'braint chwithig' fel y dywedodd y Parch Harri Parri ar y diwrnod, oedd cael bod yn ei gwasanaeth angladd yng nghapel Jeriwsalem. Diolch, Elina.

Er cof annwyl iawn am Elina Owen
Elina, cawsom luniaeth o'ch llaw hael,
Gwledd eich llên, chwaeroliaeth,
A'r ddawn i droi barddoniaeth
Yn y man yn bryd llawn maeth.

Annes Glynn

Marchnad Ogwen
Ebrill 8fed
9.30am - 1pm
Neuadd Ogwen
Bwydydd, Crefftau, Lleol
www.marchnadogwen.co.uk
facebook instagram

BYSUS D. Jr. Owens RHIWLAS
01248 361044 a 07771 634195

BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER EICH HOLL ANGHENION TEITHIO - TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.
Bysus Gwyrdd Rhiwlas
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

Pentir

Cynrig a Carys Hughes,
Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB
(01248 601318)
carys16@hotmail.com

Dathlu
Brynhawn Sadwrn 4ydd Chwefror daeth nifer dda o'r ardalwyr at ei gilydd i gymdeithasu. Braf oedd cael y cyfle i ddal fyny gyda ffrindiau a chymdogion. Roedd digonedd o ddanteithion blasus wedi eu paratoi a chytunwyd bydd rhaid trefnu digwyddiadau eraill o'r math yn ystod y flwyddyn.

Croeso adref
Erbyn hyn mae Siân, Sgwâr Pentir wedi ail ddechrau gweithio yn Ysbyty Gwynedd. Dros y misoedd diwethaf bu'n teithio ar draws nifer o gyfandiroedd. Tra'n un o wledydd dwyrain Ewrop bu'n cyflawni gwaith gwirfoddol mewn gwersylloedd i ffoaduriaid.

Llongyfarchiadau
Deallwn fod Mayah Florence wedi profi llwyddiant yn ddiweddar. Daeth yn 4ydd yng nghystadleuaeth 'Cheer Leaders UK'. Gwych Mayah!

Eglwys Sant Cedol

Te Bach
Bydd Eglwys St.Cedol yn ail ddechrau cynnal Te Bach ar brynhawn Mercher cyntaf o'r mis am 2 o'r gloch. Bydd y Te Bach nesaf ar y 5ed o Ebrill. Mae croeso cynnes i chwi ymuno gyda ni am brynhawn hwyliog gyda phaned, teisen a sgwrs.

Hamper Misol
Rydym yn cynnal Raffl Hamper Misol ar themâu gwahanol bob mis er mwyn codi arian i gynnal yr eglwys. Enillydd hamper mis Ionawr oedd Nia Roberts, sef hamper Gysur, yr hamper yn rhoddedig gan James Frith. Aeth yr ail wobr, potel wîn, i Sharon Williams.
Hoffwn ddiolch i'r aelodau, eu teuluoedd a'r teuluoedd estynedig am fod mor barod i brynu'r tocynnau raffl. Hefyd i'r aelodau a ffrindiau sydd wedi bod mor hael yn eu rhoddion i'r hamperi. Diolch o galon i chi gyd.

Gwasanaethau
Mae Gwasanaeth Sul am 9.30yb. Mae croeso cynnes i bawb ymuno yn y gwasanaethau, gyda phaned a sgwrs yn dilyn.

Manylion cyswllt
Os am drefnu priodas neu fedydd neu unrhyw fater arall yn ymwneud â'r eglwys cysylltwch gyda'r Parchedig Dr Gareth Lloyd, Arweinydd Ardal Gweinidogaethol Bro Ogwen gareth.lloyd@cantab.net neu 01248 361521. Hefyd, cofiwch fod Nia (Warden) 07719 918686 ar gael os am unrhyw wybodaeth neu ymholiad.

Glasinfryn a Chaerhun

Mair Griffiths, (352966)
mairpenybryn@gmail.com

Cylch Glasinfryn
Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol ar 8 Chwefror yn y Ganolfan. Etholwyd Mair Griffiths yn Gadeirydd, Glenys Morgan yn Is-Gadeirydd gyda Jocelyn Bowen yn Ysgrifennydd a Carole Singleton yn Drysorydd. Bydd Jocelyn yn cynrychioli'r Cylch ar bwyllgor y Ganolfan a Mair yn Ysgrifennydd y Wasg. Yn ei adroddiad blynyddol gan Jocelyn yr oedd amrywiaeth eang o sgyrsiau ac arddangosfeydd amrywiol wedi eu mwynhau gan y grŵp. Cafwyd syniadau gan amryw am beth y buasant yn ei hoffi yn sgyrsiau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Wedi'r cyfarfod mwynhawyd crempogau wedi eu darparu gan Mair a phaned gan Jocelyn a Carole. Bydd y cyfarfod nesaf ar 8 Mawrth am 12yp pan y cawn ginio Gwyl Ddewi wedi ei ddarparu gan yr aelodau, yna ar 12 Ebrill am 2 yp, edrychwn ymlaen i groesawu John Hywel yn sôn am y Meddyg Esgyrn o Fôn. Croeso mawr i aelodau newydd.

Opera Newydd
Mae "Y Bont" yn opera un act newydd sy'n edrych ar fyw gyda dementia a'r effaith mae'n ei gael ar yr unigolyn a'r bobl o'u cwmpas: yr uchafbwyntiau a'r isafbwyntiau, a'r pethau anhebygol sy'n digwydd yn y canol. Cydweithrediad yw yr opera rhwng tîm creadigol profiadol ac IDEAL, rhaglen ymchwil dementia sydd wedi hen ennill ei phlwyf. Mae ymchwil a phrofiad go iawn yn cwrdd yn y prosiect hwn a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Cymru, y mae pobl gyda dementia a gofalwyr yn cyfrannu ato. Mae'r gerddoriaeth gan Edward Wright a'r Libretto gan Marian Bryfdir (Bro Eryri, Waen Wen) Bydd perfformiad o "Y Bont" yn Saesneg, yn Ucheldre, Caergybi ar 31 Mawrth am 7.30 ac yn Gymraeg ym Mhontio, Bangor ar 1 Ebrill am 7.00 yh.

Profedigaeth
Ar 29 Ionawr bu farw Mrs Vera Wyn Williams gynt o 28 Caerhun yn 89 oed, gweddw y diweddar Ned (Pencefn) a mam Yvonne, Gwilym a'r diweddar Linda. Ar ôl dioddef strôc bymtheg mlynedd yn ôl symudodd i fyw i Springholme,Traeth Coch lle cafodd ofal gwych a hapusrwydd. Yr oedd Vera yn fawr iawn ei pharch gan bawb ac yn wraig hynod o gymwynasgar. Tra 'roedd hi a Ned yn byw yng Nghaerhun byddai'r ddau yn ymwneud â gweithgareddau lleol o bob math ac mor barod i ymgymeryd ag unrhyw orchwyl. Yr oedd hi yn nain falch iawn i Gareth, Dylan a Huw. Bu'r angladd yn amlosgfa Bangor ar ddydd Iau 16 Chwefror a daeth nifer fawr o deulu a ffrindiau yno gan ddangos maint ei phoblogrwydd a pharch tuag ati. Yn sicr bydd tristwch a hiraeth amdani, un a fu mor annwyl ac agos at bawb gydol ei hoes.

Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen 2023

Ar ôl tair mlynedd caled ar bawb, rydym yn falch o gyhoeddi bydd Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen yn ôl blwyddyn yma ar gaeau Clwb Rygbi Bethesda.
Bydd yr adrannau ceffylau, cŵn, a'r defaid yn ôl, ond rydym yn siomedig i ddweud, does dim adran ar gyfer yr ieir eleni.
Rydym yn gobeithio gweld y babell sioe yn llawn crefftau creadigol, coginio gwych a nifer o eitemau eraill.
Caiff y mabolgampau eleni eu rhoi o dan reolaeth sefydliad Ffermwyr Ifanc Dyffryn Ogwen a'r Welsh Whisperer.
Fel pwyllgor rydym yn edrych ymlaen i'ch gweld chi ar y 3ydd o Fehefin 2023

YSGOLION ABERCASEG A PENYBRYN

Ydi hi'n iawn i fod yn wahanol?
Ydi hi'n iawn i fod yn wahanol? Dyna yw thema Ysgol Penybryn yr hanner tymor yma. Mae pob dosbarth wedi bod yn gweithio yn galed iawn yn dysgu am beth sy'n ein gwneud yn wahanol a'r bobl sydd wedi brwydro am hawliau cyfartal i bawb megis Rosa Parks a Martin Luther King Jr. Cyflwynodd pob dosbarth wasanaethau arbennig oedd yn pwysleisio ar bwysigrwydd parchu gwahaniaethau i weddill yr ysgol. Roedd amrywiaeth o straeon a pherfformiadau o stori'r bobl fach wyrdd yn addysgu'r bobl fach binc am gydraddoldeb hiliol gan ddosbarth Tryfan, i rap gwreiddiol wedi ei hysgrifennu a'i pherfformio gan ddosbarth Elidir. Da iawn chi, blant!

Apêl Daeargryn Twrci
Rydym ni oll yn Ysgol Pen-y-bryn ac Abercaseg yn falch iawn o Yusef, disgybl Blwyddyn 4 oedd ar y newyddion yn ddiweddar yn sôn am brofiadiau ac effaith y daeargryn ar ei deulu yn Nhwrci. Roedd yn esbonio sut mae ei deulu wedi mynd ati i godi arian at yr apêl. Cysylltodd Uwch Ohebydd Newyddion S4C â'r ysgol i ganmol Yusef am siarad yn wych gyda Chymraeg oedd yn llifo'n naturiol braf.

Dydd Miwsig Cymru
Roedd pawb wrth eu boddau ar Ddydd Miwsig Cymru. Cafwyd dysgu am fwy o artistiaid a bandiau Cymraeg gan werthuso a dod o hyd i hoff ganeuon y dosbarthiadau, yn ogystal â chael disgo miwsig Cymraeg yn y prynhawn!

Perfformiad gwerth chweil
Mae criw o blant blwyddyn 2 wedi ymgymryd mewn her newydd - 'Her 50 Pennill'. Mae'r plant yn mentro dysgu 50 pennill ar gof dros gyfnod tymor y Gwanwyn a thymor yr Haf. Hyd yma mae'r plant wedi dysgu 10 pennill ac wedi bod yn perfformio'r penillion i weddill yr ysgol. Da iawn criw Ffrydlas.

Gwenwch!
Diolch i nyrsys Cynllun Gwên am ddod i Abercaseg. Cafodd farnais fflworid ei beintio ar ddannedd plant Abercaseg er mwyn helpu i atal pydredd dannedd. Mae Plant Ysgol Abercaseg wrthi ers tro yn brwsio eu dannedd dwywaith y dydd yn yr ysgol.

Ymweliad y Welsh Whisperer
Cafodd disgyblion blwyddyn 3 brofiad gwych yng nghwmni'r Welsh Whisperer yn cyfansoddi a pherfformio cân newydd sbon am yr ysgol, cyfle ardderchog i'r plant ddangos eu creadigrwydd a thalentau. Roedd pnawn o adloniant i goroni'r dydd gyda gig gan y Welsh Whisperer a pherfformiad arbennig gan blant blwyddyn 3 i weddill yr ysgol.

Roedd plant Blwyddyn 2 Abercaseg hefyd wedi bod wrthi'n brysur iawn yng nghwmni'r cerddor. Yn ystod y diwrnod cyntaf cafwyd cyfansoddi cân arbennig, unigryw ar gyfer yr ysgol gan roi perfformiad i weddill y plant. Ar ei ail ymweliad, gydag un o'r dosbarthiadau wedi ei osod fel stiwdio recordio cafodd bawb gyfle i gymryd rhan a chyd-greu podlediad arbennig, unigryw Ysgol Abercaseg. Profiad arbennig er mwyn datblygu hunan hyder a sgiliau llafar Y Gymraeg.

Gair neu ddau – John Pritchard

SAFON WAHANOL

Mae Plaid Genedlaethol yr Alban (SNP) yn bwriadu ethol arweinydd newydd i olynu Nicola Sturgeon erbyn diwedd mis Mawrth. Mae tri yn y ras, Humza Yousaf, Kate Forbes ac Ash Regan. Amser a ddengys prun o'r tri a gaiff ei ethol, ond yn nyddiau cynnar yr ymgyrch am yr arweinyddiaeth roedd y ddau ymgeisydd arall yn cael cryn dipyn mwy o sylw nag Ash Regan. A'r prif reswm am hynny oedd eu daliadau crefyddol: Humza Yousaf yn Fwslim a Kate Forbes yn Gristion.

Mae'r ymateb i'r ddau'n ddiddorol ar sawl cyfrif. Mae rhai'n croesawu'r ffaith fod pobl ffydd, pobl o argyhoeddiad crefyddol, yn gwleidydda ac yn chwarae rhan flaenllaw ym mywyd gwleidyddol gwlad. Nid peth newydd yw hynny wrth reswm gan fod rhai o wleidyddion amlycaf y gwledydd hyn dros y blynyddoedd wedi bod yn bobl o'r fath. Ond i eraill, mae unrhyw awgrym o 'gymysgu crefydd a gwleidyddiaeth' yn annymunol ac annerbyniol ac yn rhywbeth y dylid ei osgoi.

Yn yr Alban ar hyn o bryd, ceir pobl sy'n arddel y naill safbwynt a'r llall. Ond gwelwyd yno hefyd ddatblygiad diddorol a phryderus o ran y modd gwahanol y trafodwyd y ddau ymgeisydd hyn sy'n arddel eu ffydd yn agored. Soniwyd llawer am y ffaith fod Kate Forbes yn aelod o Eglwys Rydd yr Alban, enwad mwy ceidwadol ei ddiwinyddiaeth a'i draddodiad na rhai o enwadau eraill y wlad. Mae barn Kate Forbes ar wahanol faterion wedi ei gwestiynu a'i herio, yn bennaf ar sail y canfyddiad o'r hyn y byddai ei henwad yn debygol o'i gredu a'i ddatgan, beth bynnag a ddywed hi ei hun am weithredu yn ôl cydwybod ac am barchu safbwyntiau a hawliau pobl sydd o bosibl yn credu'n wahanol ac o farn wahanol iddi hi. Ond chlywais i neb yn sôn am ba fosg penodol y mae Humza Yousaf yn ei fynychu nac i ba draddodiad Mwslimaidd y mae'n perthyn. A phrin fod neb wedi ei herio fo wrth iddo ddatgan nad yw ei grefydd yn dylanwadu ar y penderfyniadau gwleidyddol y mae'n eu gwneud.

Mae'n rhyfedd iawn, ond nid yn syndod chwaith, bod pobl yn ymagweddu'n wahanol at y ddau. Wn i ddim p'run o'r ddau, neu prun o'r tri ymgeisydd sy'n debygol o ddod yn arweinydd y blaid, na ph'run ohonyn nhw fyddai orau ar gyfer y swydd. Ond byddai'n braf gweld yr un parch yn cael ei ddangos atynt. Ond nid rhywbeth sy'n berthnasol i'r SNP a'r Alban yn unig yw hyn gan nad peth dieithr yng ngwledydd Prydain, nac yma yng Nghymru, yw'r math hwn o anghysondeb wrth drin gwahanol grefyddau. A'r eironi mawr yw mai'r Ffydd Gristnogol a'i dysgeidiaeth sy'n gynyddol yn cael ei herio a'i gwrthwynebu o fewn cymdeithas a fyddai hyd yn ddiweddar wedi ei chyfrif ei hunan yn 'Gristnogol' yn ei hanfod. Caiff rhyddid disgyblion Iesu Grist i ddatgan barn onest a diffuant ar sail eu dealltwriaeth o'r Ffydd a'r Ysgrythurau ei herio a'i sathru yn aml gan yr union bobl a fyddai'n gyndyn ac ymarhous o herio dilynwyr ffydd arall. Ac mae hynny'n dristwch ac yn bryder gwirioneddol.

Merched sy'n Gweithio dros ein Cymuned

Rydym oll yn gyfarwydd â Phartneriaeth Ogwen a'u gwaith di-flino. Ond yda ni wir yn ymwybodol o ystod eang y gwaith sy'n mynd mlaen, a phwy sydd yn ei wneud o?

O fewn y Bartneriaeth ma na nifer o ferched sy'n gwneud gwaith arbennig dros ardal Dyffryn Ogwen. Dyma bwt bach i gyflwyno rhai o'r merched yma, a'r gwaith da mae nhw'n ei wneud.

Marie Hodson

Wedi cael fy ngeni yn Bethesda, ac wedi byw yno am 39 mlynedd. Wedi symud i Rhiwlas ers 5 mlynedd bellach efo'r gŵr a tair o enethod.

Rwy'n gweithio fel Rheolwr Hwb Ogwen yn Bethesda.

Rydwi'n falch iawn o allu helpu pobol Dyffryn Ogwen a gobeithio gwneud gwahaniaeth i'r gymuned.

Robyn Meredydd

Mi ges i fy ngeni yn Lloegr ond fy magu yn Pittsburgh, Pennsylvania. Wedi'r Brifysgol, mi symudais i Gymru, a dw i wedi setlo ym Methesda ers 2007, ac yn byw yma hefo'r gŵr a'r plant.

Ar ôl gwirfoddoli a chydweithio efo prosiectau gwahanol Partneriaeth Ogwen dros y blynyddoedd fel gweithio yn Siop Ogwen, casglu sbwriel efo Dyffryn Gwyrdd, a helpu casglu a threfnu dillad ysgol ail law efo Petha, ymunais efo'r tîm diwedd blwyddyn ddiwethaf fel Rheolwr Prosiectau Cefnogi Economi Leol.

Ar y funud, dwi'n rheoli prosiectau Cadwyn Ogwen, sydd yn cysylltu cynhyrchwyr lleol efo cwsmeriaid y Dyffryn, ac hefyd y prosiect Gofod Gwneud, fydd yn cael ei ail-lansio cyn bo hir yng Nghanolfan Cefnfaes, lle fydd yna adnoddau amrywiol ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio.

Er nad ydw i'n gweithio i Bartneriaeth Ogwen ers hir, rwy'n mwynhau gallu gwneud cyfraniad i'n cymuned a dod i nabod yr ardal a'r bobl yn well.

Lucinda Enston

Liws ydw i, wedi fy magu ym mhentre Felinfoel, Llanelli. Dod i'r coleg ym Mangor ac wedyn cael fy hudo gan gyfeillion annwyl i Fethesda. Ymgartrefu yma, magu mhlant yma yn hapus fy myd. A bob tro ma bywyd wedi bod yn anodd, cefnogaeth grêf o'm cwmpas yn syth. Pawb mor ffeind, a hefyd gonest eu barn, tynnu arnai bob cyfle, yn mynnu edrych ar yr ochor ddigri o bob strâch.

A dyma fi, rŵan yn swyddog taclo tlodi Hwb Ogwen, yn gweithio i Partneriaeth Ogwen. 57, Stryd Fawr Bethesda ydy'r cyfeiriad ac yma, mae 'na focs bwyd i unrhywun sydd angan bwyd, cymorth i lenwi ffurflenni neu wneud cais ar-lein, galwadau ffôn ac ati, mae 'na groeso cynnes i unrhywun daro fewn i gael sgwrs unrhywdro.

Dwi wrth fy modd yn cael y cyfle i helpu pobol yma yn Nyffryn Ogwen. Er bod pethau'n ofnadwy o anodd ar hyn o bryd ar draws ein cymuned, mae'r caredigrwydd a'r cyfeillgarwch dwi'n gweld yn ddyddiol rhwng pobol yn anhygoel.

C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Timber & Builders' Merchants

Bethesda - Caernarfon - Mynytho - Llanrwst - Llangefni - Caergybi - Bae Cinmel

C.L. Jones yw eich masnachwyr adeiladu annibynnol lleol gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau adeiladu o safon gan gynnwys cyflenwadau plymio, addurno a thirlunio. Rydym yn agored i fasnachau a'r cyhoedd, ac yn cynnig danfoniad am ddim. Mae gennym arddangosfeydd ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar gael yn ein canghennau yn Llangefni a Llanrwst.

Bethesda 01248 600 045

bethesda@cljonesltd.co.uk

Merched yn Cynrychioli

Ar gychwyn 2022, dim ond 16 o ferched oedd yn cynrychioli cymunedau Gwynedd fel cynghorwyr sir, i'w gymharu â 59 o ddynion. Ond yn etholiadau mis Mai, cododd y nifer o gynrychiolwyr benywaidd i 24 allan o 69.

Mae 2 o'r cynghorwyr benywaidd newydd wedi dod o Ddyffryn Ogwen. Felly, i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Merched, dyma gipolwg arny nhw, a'u gwaith.

Merch Ffrancon House yn Cynrychioli ei Chymuned

Cynghorydd dros Ward Gerlan ydy Einir Wyn Williams, sy'n ateb cwestiynau i ni ddod i'w hadnabod yn well y mis yma. Dyma ddysgu ychydig bach mwy am Einir...

1) Enw? Einir Wyn Williams
2) Oed? 46
3) Ymhle cawsoch eich geni? Ces fy ngeni yn Ysbyty Bangor a'm magu yn Braichmelyn, Bethesda yn tŷ siop, Ffrancon House, siop grosar yn y pentre. Does gen i ddim cof o'r lle fel siop, achos yn fuan wedi i mi gael fy ngeni, mi drodd fy nhad a mam y siop yn gartref teuluol i ni.
4) Ymhle ydych chi'n byw? Dwi'n byw fyny'r lôn o'm cartref yn stâd Bryn Caseg.
5) Oes gennych chi deulu? Oes, dwi'n briod â Chris ac mae gennym ni dri o blant; Enoc sy'n 16, Cari sy'n 15 a Begw sy'n 11.
6) Beth ydych chi'n ei hoffi fwyaf am fod yn Gynghorydd Sir? Dwi'n hoff iawn o allu helpu bobl leol, trafod eu pryderon a'u cynorthwyo i ddatrys problemau. Dwi wrth fy modd yn cyfarfod pobl newydd ac wedi gorfod dysgu cymaint o bethau newydd a gwahanol ers dod yn Gynghorydd Sir. Ro'n i ar y Cyngor Cymuned am bum mlynedd cyn dod yn Gynghorydd Sir, felly ro'n i'n barod i gymryd y cam nesaf. Dwi wedi setlo i'r rôl ac yn gwneud y gwaith rhwng fy swydd rhan amser yn gweithio i Swyddfa'r Post.

7) Beth ydych chi'n ei gasáu fwyaf am fod yn Gynghorydd Sir? Y peth mwya rhwystredig am y gwaith ydi'r biwrocratiaeth. Mae'r oedi a'r haenau o lefelau yn achosi cur pen wrth geisio datrys problem neu ddod o hyd i ateb ar ran unigolyn neu sefydliad. Mi rydyn ni hefyd yn ddibynnol ar bartneriaethau o fewn y cyngor, yn aml iawn, sy'n gallu achosi oedi i drio symud pethau ymlaen.
8) Pwy yw eich arwr / arwres? Fy nhad oedd fy arwr. Mi gollais fy nhad, Alwyn Parry, 25 mlynedd yn ôl. Fuodd o ddim yn iach ers iddo ddal y diciau, yn blentyn. Adeiladwr oedd dad wrth ei waith, ac mi weithiodd yn galed ar hyd ei oes. Mi ddysgodd werthoedd ac egwyddorion i ni blant gan ddweud y gallwch chi gyflawni unrhywbeth os rhowch eich meddwl ar waith ac ymdrechu'n galed.
9) Beth yw eich atgof plentyn hapusaf? Mynd yn y garafan ar ein gwyliau efo mam a dad a mrawd a'n chwaer. Oedd gynno ni y garafan lleiaf erioed ond roeddan ni'n teithio i bob math o lefydd ledled Prydain. Roedden ni'n teithio o gwmpas am bythefnos yn hapus ein byd er nad oedd dim trydan na lle chwech yn y garafan. Roedd yn wyliau syml braf ac mae'n dwyn atgofion hapus iawn i gof.
10) Beth yw eich ofn mwyaf? Yr ofn mwyaf sydd gen i ydi cael fy ngyrru i'r carchar. Dwn i ddim pam.., ella oherwydd y straeon mae rhywun yn eu darllen am bobl yn cael bai ar gam neu'r ffaith mod i'n fam ac yn meddwl sut byddai'r plant yn ymdopi hebddai. Ond dyna'r ofn, afresymol, sydd gen i!

Y Cynghorydd Newydd gyda Brwydr ar ei Dwylo

Cafodd Beca Roberts ei hethol i gynrychioli Mynydd Llandygai a Tregarth nol yn mis Mai. Fel dywed Beca:

"Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn gorwynt o emosiynau, yn ogystal â bod yn gromlin ddysgu serth. Bob wythnos rwyf wedi wynebu her neu broblem newydd o fewn y ward neu'r Cyngor, ac yn y dechrau mae'n teimlo fel y jig-so amhosibl hwn. Ond y peth gwych amdano yw faint o bobl sydd eisiau i chi lwyddo, ac sy'n gallu cynnig help i ffitio'r darnau at ei gilydd.

"Mae gen i rwydwaith cryf o Gynghorwyr newydd sydd yn dysgu a rhannu eu profiadau ar yr run pryd â mi (mae'r sgwrs whatsapp yn dipyn o antur!), yn ogystal â llu o Gynghorwyr profiadol sydd bob amser yn hapus am sgwrs ac i gynnig eu cyngor amhrisiadwy. Mae'r gymuned gryf yma o bobl sy'n gwneud cymaint dros eu cymunedau wedi bod yn ysbrydoliaeth ddofn i mi, ac wedi

gwneud yr holl brofiad yn bleser."

Ac mae Beca yn wynebu her sylweddol gyda cais cynllunio cynhennus wedi ei gyflwyno ar gyfer Coed Wern, rhwng Felin Hen a Glasinfryn,, mater sydd eisioes wedi denu sylw sylweddol gan wrthwynebwyr, yn ogystal â'r wasg.

Mae'r cwmni The Luxury Lodge Group Ltd, Stockport, wedi prynu safle 6.63 hectar o faint gyda'r bwriad o godi 40 o gabannau a phodiau glampio gan fanteisio ar leoliad y safle rhwng mynydd a môr, ac yn agos at Afon Menai a Pharc Cenedlaethol Eryri.

Un corff sydd eisioes wedi gwrthwynebu ydy Cylch yr Iaith, sydd yn nodi:

"Gor-ddarpariaeth ydi'r prif reswm dros wrthod y datblygiad arfaethedig hwn. Yr hyn y mae gor-ddarpariaeth yn ei olygu ydi gormod o'r un mathau o ddatblygiadau twristaidd yn y sir, mewn rhan o'r sir, neu mewn cymuned.

"Yn achos cynllun twristaidd Coed Wern, mae gormod o feysydd cabannau a charafanau gwyliau yn Arfon eisoes...Mae gor-ddarpariaeth yn rhan o'r or-dwristiaeth sy'n troi Gwynedd yn faes chwarae ar gyfer Lloegr, ac mae pawb yn gwybod am rannau o'r sir lle mae hyn wedi difetha cymunedau lleol. Mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn bod y math yma o dwristiaeth yn anghynaliadwy oherwydd bod yr effeithiau negyddol yn gwrthbwyso'r effeithiau cadarnhaol. Rhaid gwrthod y datblygiad."

Yn ymateb i'r cais cynllunio yma, dywed y Cyng. Beca Roberts:

"Fel Cynghorydd Sir mae'n bwysig fy mod i yn rhoi'n barn personol i un ochor a gwneud yn siŵr fy mod i yn lleisio barn trigolion fy ward, ond lwcus i mi fod barn pobl Tregarth a Mynydd Llandygai a finna yn cyd-fynd yn y mater yma. Rydw i yn gefnogol iawn o dwristiaeth cynaliadwy, ond tydi datblygiad sydd yn

Coed Wern Ty Gwyn

argymell pobol i wneud eu siopa ar y wê, sydd yn cynnig dim ond dau swydd, yn rhoi pwysau ychwanegol ar ein lonydd, ac sydd yn difetha coedwig brodorol ddim yn ddatblygiad cynaliadwy. Felly, mi fydda i'n gwneud popeth o fewn fy ngallu i gynrychioli barn pobol yr ardal, ac rwy'n gobeithio'n fawr y bydd Cyngor Gwynedd yn gwrthod y cais hwn."

"Wrth gwrs, mae hi'n gallu teimlo yn frawychus ar adegau i gael datblygiad sydd wedi denu lot o sylw cyhoeddus i'r ward yn enwedig gan fy mod i wir y meddwl bod y cais yn esiampl trallodus o gwmni mawr yn ceisio cyfalafu ar ddiwydiant twristiaeth Eryri. Ond mae gen i gefnogaeth gan Gynghorwyr Sir cyfagos profiadol â'r Cyngor Cymuned lleol, felly tydwi ddim ar ben fy hun yn y frwydyr!"

Egni Merched

Mae'r diwidiant ynni wedi denu lot o sylw yn y wasg yn ddiweddar. O'r cynydd sylweddol mewn costau egni, sy'n cyfrannu at yr argyfwng costau byw, i'r angen i gyrraedd Net Zero mewn ymateb i newid yn ein hinsawdd, mae'n debygol y bydd diddordeb yn y maes hwn yn parhau.

Ond wyddoch chi fod yna waith cyffrous iawn yn digwydd yn y maes yma yn Nyffryn Ogwen? Ac fod yna ferched sydd yn trigo yma sy'n gwneud gwaith arloesol yn y maes hwn? Dyma gyflwyno i chi dwy ddynes o'r dyffryn sy'n gwneud gwahaniaeth yn y maes cyffrous hwn.

Mary Gillie

Mary ydw i, a peiriannydd ydw i. Mae fy nghwaith yn Ynni Lleol yn adeiladu ar waith ynni cymunedol er budd pobl leol yn uniongyrchol, mae'n cadw mwy o arian yn yr economi leol a rhedeg y system trydan yn fwy effeithlon. Mae hyn yn arloesol ac yn hanfodol i gyflawni sero net.

I ddisgrifio Ynni Lleol - os ydy pobl yn defnyddio trydan lleol, solar neu hydro, pan mae o'n cael ei gynhyrchu, o fewn hanner awr o'i greu, ma nhw'n gallu talu pris llai am y trydan ac mae mwy o arian yn mynd i'r hydro neu solar lleol hwnnw. Mae felly yn well i bobl yr ardal leol, ac hefyd yn well i'r prosiectau hydro, solar, gwynt lleol yma.

Fy nhad ydy fy model rôl achos fod o'n fy nysgu i ddefynddio fy sgiliau er mwyn gwneud y byd yn le gwell i bobl ac hefyd gwarchod ein planed. Dwi'n meddwl mod i'n lwcus iawn i gael derbyn addysg bendigedig a chael mynd i'r brifysgol a ballu, a rŵan dwi ishio trio rhoi rhywbeth yn ôl i gymdeithas.

Weithiau dwi'n teimlo'n ddi-galon achos mod i'n meddwl am yr holl bethau sydd yn bosib, ond mae pethau yn symud mor araf a dwi'n gwario awr ar ôl awr ar ôl awr mewn cyfarfodydd a dwi ishio dweud 'get on with it' Ond dwi'n falch iawn o sut mae lot o bobl yn Pesda yn barod i drio rhywbeth newydd a hefyd bod yn amyneddgar pan ma petha'n mynd o'u lle, a ma nhw'n rhoi hyder i mi i gario mlaen, a ma nhw'n fy atgoffa i mod i'n trio gwneud fy ngorau.

Mae'n wir fod rhan fwyaf o'r bobl yn y sector yn ddynion, a weithiau dwi'n teimlo yn unig ond weithiau mae gen i fantais. Er enghraifft, os dwi mewn cyfarfod, ac mae pawb arall yn ddynion, mae pobl yn fy nghofio i achos mod i'n wahanol! Gobeithio hefyd mod i'n dangos fod pawb yn gallu ymuno hefo'r sector os ydy nhw eisiau, a dwi'n falch iawn fod dwy ran o dair o'r rhai sy'n gweithio i gwmni Ynni Lleol yn ferched.

Dwi'n licio pan dwi'n gallu gweithio fo pobl sydd ddim yn beiriannwyr, sydd ella ychydig yn ofnus am dechnoleg, a da ni'n cyd-weithio, a maen nhw'n dysgu am drydan, sut mae o'n gweithio, sut da ni'n gallu defnyddio trydan a mae nhw'n medru gweld - "o ia, rŵan dwi'n gallu gweld sut dwi'n gallu chwarae fy rhan".

Wrth gwrs, datblygodd y prosiect Ynni LLeol cyntaf ym Methesda, ac rŵan mae na 9 lle arall sydd wedi cychwyn, ac un arall sydd eisiau. Dwi'n meddwl ei fod yn rhywbeth mae pobl eisiau - defnyddio trydan lleol, a teimlo fel tasa nhw'n gwneud rhywbeth defnyddiol, gwneud rhywbeth sy'n helpu'r byd i'n plant, a hefyd gwella yr ardal leol hefyd.

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn

CANOLFAN CEFNFAES

Bore Coffi
Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen
Sadwrn, 1 Ebrill
10.00 – 12.00
Mynedid: £1.00

CANOLFAN CEFNFAES

Bore Coffi
Carnifal Bethesda
Sadwrn, 15 Ebrill
10.00 – 12.00
Mynediad: £1.00

CANOLFAN CEFNFAES

Bore Coffi
Eglwys Crist Glanogwen
Sadwrn,18 Mawrth 10.00 – 12.00
Mynediad: £1.00

NEUADD Y PENTREF RHIWLAS

CYNGERDD MAWREDDOG
yng nghwmni
Dilwyn Morgan (Arweinydd)
Môn Heli
Hogia'r Bonc
Rhys Meirion
* * * * * * * * *
Nos Wener, 31 Mawrth
am 7 o'r gloch
Mynediad : £10.00
Elw: Eisteddfod Genedlaethol 2023

Clwb Hanes Rachub a Llanllechid
Nos Fercher, Mawrth 29ain, 2023
am 7 o'r gloch yn y Clwb Criced
Bydd sgwrs gan
Mr. Bryn Evans
'Sgotwrs Lleol'
CROESO CYNNES!

EGLWYS UNEDIG BETHESDA
Noson yng nghwmni
Mari Gwilym
Festri Jerusalem
Nos Iau, 13 Ebrill
am 7.00 o'r gloch

CANOLFAN CEFNFAES
Gyrfa Chwist
Mawrth 28, Ebrill 11 a 25
am 7 o'r gloch.
Croeso i bawb

FESTRI CARMEL

Cynhelir
TE BACH
Dydd Llun, 27 MAWRTH
2.30 – 4.00
Croeso i bawb.

Elin Prysor Williams

Dwi'n un o Benisarwaun yn wreiddiol ond yn byw yng Ngharneddi ers blwyddyn bellach. Cyn hynny fues i'n byw yng Nglasgow am bum mlynedd.

Mi ddaru fy niddordeb mewn egni gychwyn o gwmpas 2016 pan oeddwn i newydd raddio efo gradd mewn Hanes ym mhrifysgol Lerpwl. Pan ddois i adra ddois i ar draws Ynni Padarn Peris drwy ddarllen am y fenter yn Eco'r Wyddfa (papur lleol Dyffryn Peris). Oni'n cîn i ddysgu mwy felly dyma fi'n mynd i un o'i boreuau agored a gofyn os oedden nhw isho mwy o wirfoddolwyr i ddysgu mwy am y fenter a hefyd rhoi boost bach i'r CV.

Ar ol cael blas o'r sector drwy ynni cymunedol dyma fi'n gwneud cais am ysgoloriaeth gan ScottishPower i allu astudio MSc Global Energy Management ym Mhrifysgol Ystrad Clud a digwydd bod, mi ges i'r ysgoloriaeth. Mi gafon ni seremoni ysgoloriaeth yn Sbaen oherwydd bod y ScottishPower Group yn rhan o gwmni egni byd eang Sbaeneg sef Iberdrola. Doeddwn i ddim yn sylwi ar y pryd bod yr ysgoloriaeth yn un mawreddog yn Sbaen felly wedi cyrraedd y seremoni dyma ni'n cael dipyn o syrpreis o ddarganfod mai Brenin a Brenhines Sbaen oedd yn gwobrwyo'r ysgolheigion yn y seremoni!

Erbyn heddiw dwi'n gweithio yn ScottishPower Renewables yn y tîm Datblygu Busnes. Mae'n tîm ni yn gyfrifol am sicrhau marchnadau i werthu'r trydan cyn i unrhyw ddatblygiad cael ei adeiladu. Mae'n rôl i ar hyn o bryd yn archwilio fewn i farchnadau eraill arloesol sef 'ancillary services'. Mae ancillary services fel arfer yn wasanaethau mae cwmniau grid fel National Grid yn gofyn i generaduron ynni i'w helpu i gadw cyflenwad trydan ar y grid yn wastad a diogel. Mae'r farchnad yma yn tyfu oherwydd bod na fwy o ynni adnewyaddadwy ar y system sy'n golygu bod angen mwy o gynllunio ar sut i reoli'r grid yn y dyfodol i gyrraedd targedau net zero y llywodraeth.

O mhrofiad i'n bersonol tydy o ddim yn anarferol bod yn ddynes yn y maes hwn.

Mae na lawer iawn o ferched yn mynd i mewn i'r maes rŵan. Er hynny, mae'r mwyafrif o beirannwyr profiadol yn tueddu i fod yn ddynion ar hyn o bryd ond mae hynny yn newid yn araf deg oherwydd bod na fwy o ferched yn mynd mewn i'r maes mewn sectorau peiriannol / rheoli prosiect.

Dim ots pa brosiectau sydd ar y gweill mi fydda'i bob tro'n meddwl mai y bobl sydd yn gwneud prosiect yn llwyddiannus a mae pobl Dyffryn Ogwen yn arbennig iawn! Does 'na ddim llawer o gymunedau wedi gallu llwyddo i gynnal prosiect ynni cymunedol mor llwyddiannus ag Ynni Ogwen (ac Ynni Padarn Peris wrth gwrs!) felly mae hynny yn ei hun yn sbesial iawn. Ers byw yng Ngharneddi am flwyddyn bellach, mae pobl Dyffryn Ogwen i weld yn bobl balch ofnadwy o'u hardal a mae hynny'n nodwedd allweddol i brosiectau cymunedol y dyfodol.

DYDDIADUR BOREAU COFFI

2023

18 Mawrth – Cefnfaes – Eglwys Crist Glanogwen.
25 Mawrth – Cefnfaes – Plaid Cymru Dyffryn Ogwen
01 Ebrill – Cefnfaes – Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen.
15 Ebrill – Cefnfaes – Carnifal Bethesda.
13 Mai – Cefnfaes – Cymorth Cristnogol
17 Mehefin – Cefnfaes – Eglwys Crist Glanogwen.
24 Mehefin – Cefnfaes – Cronfa Goffa Tracy Smith.
08 Gorffennaf – Cefnfaes – Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen.
16 Medi – Cefnfaes – Plaid Cymru Dyffryn Ogwen
23 Medi – Cefnfaes – Eglwys Crist Glanogwen
14 Hydref – Cefnfaes – Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen

Canolfan Cefnfaes

Bore Coffi Plaid Cymru

Sadwrn, 25 Mawrth
10.00 – 12.00
Mynediad: £1.00

Gareth Cemlyn Jones, Cadeirydd Ynni Ogwen efo Ianto Shea, Warden Ynni Partneriaeth Ogwen a Marie Hodson, Rheolwr Hwb Ogwen a Lucinda Enston, Swyddog Atal Tlodi.

Ynni Ogwen

Yn dilyn cymeradwyaeth yr aelodau a'r Bwrdd Cyfarwyddwyr, mae Ynni Ogwen yn falch o gyhoeddi eu bod wedi neilltuo swm o £20,000 tuag at yr argyfwng costau byw. Bydd yr arian hwn yn cael ei wario mewn cydweithrediad â Phartneriaeth Ogwen trwy ariannu swydd Ianto Shea, Warden Ynni Partneriaeth Ogwen ac arian tuag at brosiectau atal tlodi Hwb Ogwen. Mae Ianto eisoes wedi dechrau gweithio'n llawn amser i'r Bartneriaeth a mae'n helpu aelodau o'r gymuned i leihau eu biliau ynni. Bydd rhywfaint o gyllideb hefyd yn mynd at waith Hwb Ogwen yn cynnwys rhannu prydau cynnes yn nosweithiau Swper Chwarel a dosbarthu nwyddau i helpu bobol gadw'n gynnes. Meddai Gareth Cemlyn Jones, Cadeirydd Ynni Ogwen,

"Mae Ynni Ogwen yn falch o allu defnyddio rhywfaint o elw'r cynllun hydro yn uniongyrchol i helpu cymuned Dyffryn Ogwen yn ystod yr argyfwng costau byw. Mae hyn yn enghraifft wych o werth cynlluniau ynni adnewyddol cymunedol o safbwynt atal tlodi a rydym yn falch o gydweithio efo Partneriaeth Ogwen i helpu pobol leol."

Mae Ianto'n gweithio yn Hwb Ogwen, 57 Stryd Fawr Bethesda bob dydd Mawrth a dydd Iau yn barod i helpu efo unrhyw ymholiadau ynni. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â ianto@ogwen.org neu am fwy o wybodaeth am Hwb Ogwen, cysylltwch â hwb@ogwen.org.

Os hoffech fwy o wybodaeth am waith Ynni Ogwen a chyfleoedd gwirfoddoli, cysylltwch â ynni@ogwen.org

YSGOL DYFFRYN OGWEN

ADRANNAU CYMRAEG A SAESNEG

Yr Ysgwrn

Dydd Gwener Chwefror 17eg cefais i a gweddill disgyblion blwyddyn 9 y cyfle i ymweld â'r Ysgwrn yn Nhrawsfynydd gyda'r Adran Gymraeg. Rydym wedi bod yn dysgu am hanes a chefndir y bardd Hedd Wyn yn ein gwersi Cymraeg ac roedd yn brofiad arbennig cael mynd i gartref y bardd a gweld y gadair ddu a cherdded o amgylch yr ardal gan weld yr holl bethau a ysbrydolodd ei farddoniaeth. Llyr Roberts, blwyddyn 9

Taith UNOL

Ar Chwefror 28ain cefais i a gweddill disgyblion blwyddyn 13 sy'n astudio'r Gymraeg daith dywys arbennig iawn o amgylch y dyffryn i ddysgu am leoliadau'r nofel Un Nos Ola Leuad dan arweiniad Mr Ieuan Wyn. Gan ein bod yn astudio'r nofel fel rhan o'r cwrs safon uwch roedd dysgu am leoliadau'r nofel yn bwysig iawn ac yn dod â'r cymeriadau a'r digwyddiadau'n fyw yn ein meddyliau.
Cerys Elen, blwyddyn 13

Taith i Brifysgol Glyndwr, Wrecsam

Cafodd yr Adran Saesneg deithiau llwyddiannus i Brifysgol Glyndŵr, Wrecsam gyda blynyddoedd 8, 10 a 13 i weithdai llenyddol Gŵyl y Gelli. Roedd yn gyfle arbennig iawn i'n disgyblion gael cydweithio gyda beirdd a llenorion adnabyddus a chael ymarfer eu sgiliau ysgrifennu creadigol.

'Caru Darllen'

Cynhaliodd yr Adrannau Cymraeg a Saesneg Ffair Lyfrau arbennig fel rhan o ymgyrch 'Caru Darllen' gyda stondin rhagorol wedi'i darparu gan siop lyfrau Na-Nog. Rhoddwyd tocyn llyfr i ddisgyblion i'w wario ar lyfr o'u dewis o ddetholiad eang o destunau Cymraeg a Saesneg.

ADRAN GELF

Mae gwaith Celf blwyddyn 10 Ysgol Dyffryn Ogwen yn cael eu harddangos yn Storiel ar hyn o bryd, ochr yn ochr â gwaith yr artistiaid enwog mae'r gwaith wedi ei ysbrydoli ganddynt. Mae'r criw wedi gweithio yn galed i ddatblygu eu hymatebion felly ewch draw i Storiel, Bangor am sbec cyn Mawrth 25ain.

ADRAN GERDD

Llongyfarchiadau i Hannah Hughes sydd wedi pasio Gradd 7 ffliwt gyda theilyngdod. Hefyd i Megan McDonald Jones a Nicola Wheatcroft am basio Gradd 5 ffliwt.

ADRAN DECHNOLEG

Cawsom lwyddiant arbennig gyda sesiynau Codio ar gyfer nifer o ddisgyblion cyn hanner tymor. Gobeithio bydd gemwyr a rhaglenwyr o Fethesda yn datblygu ar gyfer y dyfodol!

Llysgenhadol Di-fwg

Cafodd criw o ddisgyblion blwyddyn 8 hyfforddiant gan staff y GIG ac Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn datblygu yn eu rôl fel llysgenhadon gwrth-ysmygu yn yr ysgol. Bydd y criw yma yn parhau i dderbyn hyfforddiant dros yr wythnosau nesaf cyn ymgymryd â'u rolau yn yr ysgol.

Ymwelydd - Prifysgol Glyndŵr

Braf oedd croesawu Sara Hilton, darlithydd Egwyddorion Chwaraeon a Phêl-Droed Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam i'n hysgol yn ddiweddar. Cafodd tîm pêl droed merched blwyddyn 9 a chriw TGAU Addysg Gorfforol blwyddyn 10 eu hysbrydoli wrth glywed Sara yn rhoi syniadau o sut i fynd ati i hyfforddi pêl-droed. Hefyd, roedd yn gyfle iddynt ddod yn gyfarwydd â gwahanol gyrsiau sydd ar gael ym Mhrifysgol Glyndŵr o fewn y byd Chwaraeon.

ADRAN FATHEMATEG

Llongyfarchiadau i ddisgyblion blwyddyn 11 ar eu llwyddiant yn yr '*UKMT Intermediate Mathematical Challenge*'. Mae'n gystadleuaeth a gynhelir yn flynyddol ar draws y DU i ddisgyblion blwyddyn 11 i brofi sgiliau rhesymu mathemategol a meddwl creadigol wrth ddatrys problemau diddorol. Y rhai a ddaeth i'r brig gyda Gwobr Arian oedd Jac Simone, Callum Hewitt, Rhiannon Roberts a Hannah Ellis gyda Gwobr Efydd i Harri Williams, Shem Luxton, Nicola Wheatcroft, William Jones, Iestyn Emptage, Caiden Mortimer, Elsie Owen a Seren Hinchliffe. Rydym yn falch iawn o'ch llwyddiant arbennig!

CHRIS GRIFFITHS CYF
Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu
18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB
☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

L. Sturrs
a'i feibion
sefydlwyd yn 1965
ADEILADWYR
Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda
Ffôn: 600953
lsturrs@googlemail.com

Gareth Williams
Trefnydd Angladdau
Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda
600763 neu 07708 008051
GWASANAETH DYDD A NOS

Côr y Penrhyn

gyda Derfel Roberts

Dau gôr yn codi miloedd i Wcráin

Yn Eglwys Gadeiriol Bangor ar nos Sadwrn 4 Mawrth diddorwyd cynulleidfa lawn gan Gôr y Brythoniaid o Flaenau Ffestiniog a Chôr y Penrhyn. Agorwyd y cyngerdd gan y Brythoniaid gydag wyth cân o'u rhaglen ac roedd y donyddiaeth soniarus a gynhyrchir dan arweiniad John Eifion Jones yn swyno pawb.

Mae'r Brythoniaid yn gôr mawr gyda 70 o aelodau ar y llwyfan yn creu sŵn nerthol mewn cytgord perffaith. Mae lleisiau'r bas yn rhoi sylfaen gadarn i'r tenoriaid wrth iddyn nhw ymgyrraedd at rai nodau uchelgeisiol mewn ambell ddarn. Cafwyd cymysgedd o draddodiadau cerddorol gan y côr nodedig hwn gyda darnau traddodiadol Cymreig a darnau operatig yn ogystal â darn ysbrydol o eiddo'r Americanwyr Affricanaidd. Cyfrannodd John Eifion gyda'i lais tenor operatig at gyfoeth eu cyflwyniad pan gymerodd ran yr unawdydd yn un o operâu enwog yr Eidal.

Roedd cymeradwyaeth y gynulleidfa yn dystiolaeth i'r mwynhad a gaent wrth wrando ar gôr sydd wedi hen ennill ei blwyf ar lwyfannau eisteddfodol a chyngherddau Cymru.

Brythoniaid ym Mhortmeirion

Cor y Penrhyn ger Castell Penrhyn

Hogia'r Penrhyn yn disgleirio

Wedi i'r Brythoniaid orffen eu rhan agoriadol, ac ildio eu lle ar y llwyfan i Gôr y Penrhyn o dan arweiniad sicr a medrus Owain Arwel a chyfeiliant Frances Davies, fe agorwyd gyda *Y Ddau Wladgarwr*, darn enwog y Dr Joseph Parry i denor a bas gyda'r trefniant gan Colin Jones. Llwyddodd y darn cyffrous hwnnw i danio brwdfrydedd y gynulleidfa ac fe'i dilynwyd gan ddarn adnabyddus arall sef *Cŵyn y Gwynt* gyda'r geiriau o waith Syr John Morris Jones. Roedd y darn yn arbennig o addas gan mai tôn y Bandura o Wcráin a ddefnyddir ynddi. Diolch i Hywel Thomas o'r tenoriaid am ganu'r unawd yn y darn hwn.

Ymhlith y darnau eraill a berfformiwyd i gymeradwyaeth gynnes, canwyd, -

Ysbryd y Nos gan Hefin Elis a Cleif Harpwod

Pererin Wyf o waith William Williams ar drefniant Owain Arwel o'r dôn *House of the Rising Sun.*

Gwinllan a Roddwyd , Saunders Lewis a Caradog Williams

Yn ogystal â nifer o ddarnau eraill o raglen y côr.

Effaith trydanol

Wedi dweud hynny does dim dwywaith mai'r darn sy'n plesio'r gynulleidfa'n fwy nag unrhyw ddarn arall yw *Tshotolosa*, y gân werin o Dde Affrica yn cael ei dilyn yn union gan *Nkosi Sikelele Afrika* sydd wedi ei mabwysiadu fel anthem genedlaethol y wlad honno. Yn y ddwy gân mae Côr y Penrhyn yn ymwahanu gyda'r tenoriaid yn sefyll ar un ochr i'r gynulleidfa a'r adrannau bas yn sefyll yr ochr arall. Mae Owain Arwel yn defnyddio drwm traddodiadol o Affrica i osod y tempo ar gyfer y darnau. Mae'r effaith sy'n cael ei greu wrth i'r lleisiau ateb ei gilydd mewn sawl lle cyn ymuno ar ddiwedd y darnau yn cael effaith trydanol ar y gynulleidfa lle bynnag mae'r côr yn perfformio.

Diweddwyd y cyngerdd gyda Chôr y Brythoniaid a Chôr y Penrhyn yn uno i ganu *Myfanwy* dan arweiniad John Eifion a'r emyn dôn *Gwahoddiad* gydag Owain Arwel.

Aeth y dorf adre o'r Gadeirlan wedi eu boddhau a chlywyd sawl un yn canmol perfformiadau'r ddau gôr. Y Pwyllgor Argyfyngau Brys (DEC) a drefnodd y cyngerdd a llwyddwyd i godi swm anrhydeddus iawn i achos Wcráin. Does dim angen ailadrodd yma pa mor fawr yw'r angen yn y lle hwnnw, yn wyneb ymosodiadau ciaidd Rwsia ar bobl ac adeiladau'r wlad. Mae'r dioddefaint erchyll wedi parhau am dros flwyddyn yn barod a gweddïwn na fydd angen cyngerdd tebyg eto ymhen blwyddyn arall.

BARBWR OGWEN

Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant gan Alison
Rhaid gwneud apwyntiad.
Ffoniwch: 07796 038824

TEMPLE MORRIS A'I FAB

Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531
01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com

Arbenigwr mewn lloriau coed caled

A.G.L.
Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

YSGOL BODFEURIG

Ymweliad yr heddlu
Fel rhan o'u thema 'Pobol sy'n ein helpu' roedd dosbarth Idwal wedi cyffroi yn lan wrth weld PC Andy a PC Martin yn cyrraedd yr ysgol mewn fan heddlu! Cafodd pawb fynd i weld y fan, eistedd yn y cefn a cafodd rhai gyfle i wisgo helmed heddwas. Diolch o galon PC Andy a PC Martin am eich amser – tybed oes heddlu y dyfodol ymysg plant y dosbarth?

Kerbcraft
Heb amheuaeth mae croesi'r ffordd yn ddiogel yn sgil hanfodol, dyna ffodus felly fod Anti Shirley wedi ymweld â'r ysgol fel rhan o gynllun Kerbcraft. Yn ystod ei diwrnod cyntaf yn yr ysgol fe gafodd dosbarth Idwal hanes Carys Ofalus tra bod dosbarth Ogwen wedi cymryd rhan mewn cwis am ddiogelwch y ffordd.

Prif ffocws ymweliad Anti Shirley oedd dysgu blwyddyn 2 sut i groesi'r ffordd yn ddiogel. Ar ôl wythnos brysur o wersi y tu mewn a thu allan dyna braf oedd gweld pob un yn llwyddo i gael eu gwobrwyo am eu gwaith caled gyda tystysgrif a medal. Diolch Anti Shirley am eich amser a diolch enfawr i Carys Ofalus ei hun am alw heibio i weld pawb!

Cyfnewid dillad gyda'r cyngor Eco
Allwch chi ddim agor papur newydd neu droi'r teledu ymlaen heb glywed sôn am gostau byw teuluoedd. Penderfynodd y Cyngor Eco fynd ati i geisio helpu teuluoedd yr ysgol yn ogystal â'r amgylchedd trwy gynnal stondin cyfnewid dillad. Daeth llawer o blant a dillad nad oeddent eu hangen ac roedd cyfle i eraill ddewis dillad i fynd adref gyda nhw – pawb yn hapus! Syniad gwych a diolch i'r Cyngor Eco am drefnu.

Dydd Miwsig Cymru
Mae plant Bodfeurig wrth eu boddau yn canu felly pan welodd pawb fod Dydd Miwsig Cymru ar y gweill penderfynwyd drefnu Carioci Cymraeg. Gwelwyd llu o blant yn rhoi eu henwau ymlaen i gystadlu ac ar y diwrnod roedd y neuadd yn fwrlwm o ganu, o hwiangerddi i ganeuon fel Yma o Hyd a Tŷ ar y Mynydd. Da iawn pawb gymerodd ran ac i'r rhai fu'n eu cefnogi. Llongyfarchiadau mawr i Alys, Annie a Molly am ddod yn fuddugol.

Cais am Wirfoddolwyr

Mae Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru yn chwilio am wirfoddolwyr i ddarllen Llais Ogwan a'i recordio ar CD.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Nick Thomas, Swyddog Datblygu CDGC: nick@nwsb.org.uk

Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru -
'Cefnogi pobl sy'n byw gyda cholli golwg'

Neges Dydd Gŵyl Dewi Y Mudiadau Iaith

Mae Cymdeithas yr Iaith, Dyfodol i'r Iaith a Chylch yr Iaith wedi mynegi pryder dwfn ynglŷn â diffygion difrifol yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ysgolion uwchradd Gwynedd. Mae'r mudiadau'n galw am roi ysgolion uwchradd y sir yng nghategori uchaf Addysg Cyfrwng Cymraeg ac am sefydlu trefn effeithiol o fonitro. Dyma Neges Dydd Gŵyl Dewi y mudiadau iaith i Gyngor Gwynedd.

Yn dilyn cyhoeddi canllawiau Llywodraeth Cymru ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, penderfynodd swyddogion adran addysg Cyngor Gwynedd osod yr ysgolion uwchradd (ac eithrio Ysgol Friars ac Ysgol Tywyn) yng Nghategori 3. Bydd ysgolion y categori hwn yn cynnig ystod eang o'u Meysydd Dysgu a Phrofiad drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd o leiaf 60% o'r disgyblion yn ymgymryd ag o leiaf 70%

Iaith Pesda

gan Mary Jones

Efallai i chi gofio i mi sôn am waliau a chloddiau yn rhifyn Chwefror, ac wedi hynny rwyf wedi cael gwybodaeth am gloddiau. Ym Mhen Llyn yn enwedig mae clawdd wedi ei adeiladu o ddwy wal gerrig yn cydredeg gyda phridd a thyfiant rhyngddynt. Mae hyn yn gwneud synnwyr, wrth gwrs, pan ryda ni'n sôn am Glawdd Offa (er nad yw hwnnw ym Mhen Llyn wrth gwrs)

Dim yn teimlo'n dda

Mae pob un ohonom ni'n teimlo'n sâl o dro i dro, ac weithiau yn swp sâl fel y soniwyd o'r blaen. Mi fyddan ni hefyd yn gallu bod yn 'swp o annwyd' neu yn 'bosal o annwyd' neu hyd yn oed yn 'drymgla o annwyd' Yda chi'n arfer rhai o'r ymadroddion hyn? Ac yn wir ryda chi'n gallu teimlo 'yn giami'. "Sut mae Wil yn teimlo heddiw?" gofynir ac weithiau daw yr ateb "Digon cwla ydi o wir." Felly dau air yma 'cwla', 'giami' ac un arall wrth gwrs ydi 'symol' sef heb fod yn rhy dda o gwbl. A phwy nad sydd erioed wedi dioddef o 'homar o gur pen'!

Gair na fydda i'n ei glywed lawer y dyddiau yma ydi 'llyfreithen' neu 'lyfreithan' fel y dywedwn ni, rhyw gochni ar amrant y llygad efo swigen wen arno ac yn edrych yn anafus iawn. Tybed oes llai o bobl a phlant yn dioddef ohonynt y dyddiau hyn!

Dau ystyr

'Cymer di ofal' Gall hwn fod yn rybudd bach digon annwyl gan riant i blentyn pan eu bod ar fin dringo, neu mynd ar feic, ar y llaw arall gall fod yn rybudd sy'n golygu 'meiddia di wneud hynna ac mi fydd yn ddrwg arnat ti'. Dim ond newid goslef y llais ac arafu' r mynegiant a bydd y gwahaniaeth rhwng y ddau yn dod yn bur amlwg.

Hwylio

Fel y gwyr pawb mae hwylio yn golygu mynd ar y môr mewn cwch a hithau efo hwyliau arni. Ond defnyddiwn y gair hefyd pan fyddwn yn paratoi tuag at rywbeth, 'hwyio fy hun i fynd allan oeddwn i', a phwy y dyddiau yma sy'n hwylio bwrdd yn barod at ginio neu dê.

Tân

Dyma ni eto hen ffefryn. Byddem yn huddo'r tân, sef gorchuddio'r fflamau a'r cochni efo glo mân er mwyn ei gadw dros nos. Soniwyd am 'dân sisfins' a 'stori'n mynd drwy'r ardal fel tân gwyllt' o'r blaen yn y golofn, a dyma ragor o ddywediadau sy'n cyfeirio at dân. Pan fyddai hi'n oer ac un o'r hogia yn ei dro yn troi ei din at y tân i gnesu, byddai'n cael ei rybuddio gan ei rieni, "Paid a mynd yn rhy agos at y tân 'na rhag i ti ddeifio dy drwsus" (hynny yw dechrau llosgi). Pan fyddai pregethwr o'r pulpud yn rhybuddio'r gynulleidfa rhag mynd i uffern, byddai pobl yn dweud ei fod yn pregethu 'tân a brwmstan'. Mi fyddan ni'n dweud bod 'tân yn ei fol/ei bol' pan fydd rhywun yn daer iawn dros rhyw achos neu'i gilydd, a bod rhywun 'ar dân' dros achos.

Sachad

Pan fydd rhywun yn cael siom o fethu cyflawni neu gael rhywbeth, mi ddwedwn ni fod o neu hi 'wedi cael ail'. Ond pan fydd y siom yn fawr, mi ddwedwn ni ei fod o neu hi wedi cael 'sachad' o 'sachaid', a'i ystyr ydi 'llond sach' wrth gwrs, ac yn achos cael siom fawr, mae o'n golygu llond sach o siom – a dim byd arall!

Siarad heb lawer o Synnwyr

Mae gynnon ni sawl ffordd o ddisgrifio pethau di-synnwyr. Dyma nhw i chi: siarad nonsans, siarad yn hurt, siarad gwag, siarad yn wirion, siarad lol, lolian, lol-mi-lol, lol botas maip, rwdl-mi -rwdl, rwdlian, mwydro (moedro), paldaruo, malu awyr, malu cachu.

Gan obeithio nad wyf fi wedi gwneud gormod o hynny, dyna ni am fis arall! Cofiwch gysylltu â Mary Jones, 42 Erw Las, Bethesda LL57 3NN, 07443047642, **maryeds@hotmail.co.uk**

o'u gweithgareddau ysgol (cwricwlaidd ac allgyrsiol) yn Gymraeg.

Yn ôl y mudiadau, dydi Categori 3 ddim yn addas ar gyfer ysgolion uwchradd Gwynedd, a hynny am y rhesymau canlynol:

1. Mae'r ymadrodd 'ystod eang' sy'n cyfeirio at nifer y Meysydd Dysgu a Phrofiad cyfrwng Cymraeg yn gwbl annelwig ac amhendant, ac felly'n ddiffygiol fel disgrifiad ac fel canllaw i ysgolion.
2. Mae'n nodi isafswm cwbl annigonol o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, ond ni nodir yr uchafswm. Mae'n caniatáu i gyn lleied â chwech o bob deg disgybl dderbyn llai na thri chwarter eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda bron draean drwy'r Saesneg. Nid yw'n rhoi disgrifiad o'r ddarpariaeth fydd ar gyfer y 40% arall o'r disgyblion.
3. Mae'n annigonol i wrthsefyll a gwrthweithio'r grymusterau ieithyddol a diwylliannol sy'n erydu a thanseilio strwythur a gwead cymdeithasol y bywyd Cymraeg yng nghymunedau Gwynedd.

Mae'r mudiadau yn tynnu sylw at ganllawiau Llywodraeth Cymru, sy'n nodi'n glir mai bwriad y categoreiddio newydd ydi 'annog ysgolion i gynyddu eu darpariaeth Gymraeg ... a hwyluso'r broses i ysgolion symud i'r categori nesaf ... i ysgolion dyfu eu darpariaeth Gymraeg.'

Meddai'r datganiad ymhellach:

'Dylai Cyngor Gwynedd fod yn arwain gydag Addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghymru, a dylai anelu at gynnig yr un ddarpariaeth ag ysgolion Cymraeg dynodedig mewn siroedd eraill.

'Mae'n gwbl anfoddhaol ac annerbyniol fod disgyblion Gwynedd o aelwydydd Cymraeg ac o aelwydydd di-Gymraeg yn derbyn llai o addysg cyfrwng Cymraeg na disgyblion ysgolion Cymraeg dynodedig mewn siroedd eraill. Mae pobl ifanc, rhieni a chymunedau Gwynedd yn haeddu ysgolion gyda'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg fwyaf cyflawn sy'n cael ei chynnig. Hynny fyddai'n briodol yn addysgol, yn ddiwylliannol ac yn gymdeithasol. Ni ddylid colli'r cyfle hwn. Heb weithredu'n awr i wrthweithio'r tueddiadau niweidiol byddant yn ein goresgyn a bydd yn rhy ddiweddar wedyn. Rhaid edrych ar y sefyllfa'n wrthrychol ac yn onest, a gweithredu'n gadarn ac yn hyderus.'

Cymdeithas yr Iaith, Dyfodol i'r Iaith, Cylch yr Iaith

Dathlu Dewi yn y Dyffryn

Gyda'r 1af o Fawrth yn ddiwrnod i ddathlu ein nawddsant, braf yw clywed fod dathliadau wedi eu cynnal ym mhob cwr o'r dyffryn. Dyma ddetholiad o'r dathladau arbennig hyn, i roi blas o Ddydd Gŵyl Dewi Dyffryn Ogwen.

Gwisg genhinen yn dy gap a gwisg hi yn dy galon - Ysgolion Penybryn ac Abercaseg
Ar Fawrth y 1af, daeth Cyngor Ysgol Dyffryn Ogwen i sgwrsio gyda disgyblion Pen-y-bryn am eu profiadau a'r gwaith anhygoel mae'r Ysgol yn ei wneud er mwyn datblygu'r Gymraeg. Cawsom hefyd gwmni pennaeth Blwyddyn 7 ac athrawes Gymraeg o'r ysgol a fu'n rhoi gwersi iaith i flynyddoedd 5 a 6. Cafodd disgyblion Penybryn ddathliad mawr yn y prynhawn gyda phrynhawn hwyl yn llawn gweithgareddau, cystadlaethau a gemau i ddathlu dydd Gŵyl Dewi a lansio ein prosiect 'Y Gymraeg yn y Gymuned', tra bu'r cerddor, Mr T, yn diddanu plant Abercaseg – oll yn swn Y Gymraeg!

Ysgol Llanllechid
Llawer iawn o ddiolch i'r holl rieni a chyfeillion yr ysgol a ddaeth draw i'n cefnogi ar fore dathlu dydd gŵyl ein nawddsant. Eto eleni, cafwyd cyngerdd gwerth chweil a'r disgyblion o'r ieuengaf i'r hynaf yn cymryd rhan. Braf iawn gweld y disgyblion yn gwybod cymaint o farddoniaeth ar gôf a chadw. Da iawn chi blantos!

Chwedlau Cymru
Bu rhai o'r disgyblion yn trin a thrafod rhai o'n chwedlau adnabyddus yn ddiweddar gan gynnwys chwedlau lleol a chwedlau e.e Clychau Cantre'r Gwaelod, Gwion a Cheridwen, Rhys a Meinir. Llongyfarchiadau i Nanw, Mili, Nel, Efa ac Addison ar gyflwyno eu hoff chwedl ar raglen Aled Hughes ar Radio Cymru ar ddydd Gŵyl Ddewi! Gwych blantos!

Mabinogion
Bu'r disgyblion yn trafod pedair cainc y Mabinogion, a chafwyd sioe fyrlymus yn neuadd yr ysgol.

Stryd Fawr Bethesda
Bu rhai o ddisgyblion ieuengaf yr ysgol yn ymweld â rhai o siopau'r Stryd Fawr. Cafwyd croeso bendigedig yn siop Londis a chyfle i sgwrsio hefo Becca Davies wrth y til. Wedyn aethpwyd heibio i siop Ann Jeanette, Crochendy Bethesda, ATD Electrics, Swyn Anifeiliaid a chael sgwrs hefo Bethan Roberts yn Siop Ogwen. Diolch i bawb am y croeso!

Gwnewch y Pethau Bychain
Bu rhai o'r dosbarthiadau yn meddwl am ystyr hyn o ddifrif! Dyma beth mae 'gwneud y pethau bychain' yn ei olygu i rai o'n plant ieuengaf:
Enfys: Helpu fy chwaer fach i ddod allan o'r cot.
Kaya: Helpu fy nghyfnither pan mae'n brifo.
Beti: Yn y bora dwi'n rhoi bwyd i'r bwnis.
Elgan: Dwi'n helpu mam i wneud bwyd.
Eila: Dwi'n helpu brawd bach i wisgo esgidiau.
Efa: Dwi'n helpu Seren.
Seren: Dwi'n helpu i dacluso.
Ella: Dwi'n helpu mam i olchi llestri.
Isabel: Dwi'n chwarae hefo Nova.
Osian: Edrych ar ôl plant pam mae nhw wedi brifo.
Hugo: Dwi'n chwarae efo Elgan.
Seion: Dwi'n helpu mam i dacluso.

Ysgol Bodfeurig
Cafwyd diwrnod gwych yn Ysgol Bodfeurig yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi, yn ogystal â llawer o weithgareddau yn y dosbarth. Cynhaliwyd cyngerdd arbennig ar gyfer teuluoedd a ffrindiau yr ysgol. Cafwyd gwledd o ganu yn ogystal a dawnsio gwerin a chyfle i edrych ar waith celf y plant. Pnawn gwych yn gweld y plant yn ymfalchio yn eu Cymreictod!

Partneriaeth Ogwen
Bu Linda, Cyfaill Cymunedol a Dewi'r Gyrrwr yn brysur dros ben ar Fawrth laf – dydd Gŵyl Dewi, yn dosbarthu Cennin Pedr a chacennau cri o amgylch yr henoed yn ardal Dyffryn Ogwen. 'Roedd pawb wrth eu boddau.

Ysgol Tregarth
Dydd Mercher, Mawrth 1af, cynhaliwyd gwasanaeth yn neuadd yr ysgol i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Braf oedd gweld y neuadd yn orlawn o rieni a ffrindiau. Yn ystod y gwasanaeth cyflwynodd pob dosbarth eitemau amrywiol, cafwyd canu torfol yn cynnwys alawon gwerin, caneuon ysgafn, dawnsio gwerin a datganiad ysbrydoledig o'r anthem genedlaethol. Gwnaed llawer o'r trefniadau gan y cyngor ysgol , gan gynnwys gwerthu'r tocynnau raffl ac fe enillodd un person lwcus hamper o nwyddau Cymreig. Hoffem ddiolch i bawb am eu cefnogaeth.

Cofio J. Elwyn Hughes

Gair o Ddiolch
Dymuna Deilwen, Gwyndaf, Garmon, Siôn a Manon a'r teulu oll ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli Elwyn, gŵr a thad annwyl ac arbennig iawn, ddechrau'r flwyddyn hon.

Diolchir am yr holl ymweliadau, y galwadau ffôn, y llythyrau, y llu cardiau yn ogystal â'r rhoddion hael. Mae'r cyfan wedi bod yn gysur mawr i'r teulu. Diolchir hefyd i feddygon a staff meddygfa Waunfawr, Nyrsus Cymunedol ac i dîm cymunedol Tuag Adref am eu gofal arbennig yn ystod y misoedd diwethaf. Diolchir i'r Parchedig Nerys Griffith am lywio'r gwasanaeth, i'r Prifardd Ieuan Wyn am ei deyrnged feistrolgar a draddododd gydag urddas, i Mrs Menai Williams am ei gwaith wrth yr organ ac i Glwb Rygbi Bethesda am baratoi lluniaeth ardderchog. Diolchir hefyd i gwmni Dylan Griffith am eu trefniadau trylwyr, gofalus ac urddasol. Gwerthfawrogir yn arbennig y cyfraniadau hael a dderbyniwyd tuag at feddygfa Waunfawr a thîm Tuag Adref a gasglwyd er cof am Elwyn.

Derbyniwyd rhagor o deyrngedau i Dr J. Elwyn Hughes, a diolchwn i'r cyfeillion amdanynt.

Elwyn

(Er Cof am fy Nghyfaill, J. Elwyn Hughes)

Aeth iaith ein hen gymdeithas uniaith ni'n
faldorddi diurddas:
iaith ddi-fai yn fratiaith fas,
iaith ddinod, ddiberthynas.

Ond rhoes ei dalent ar waith i'w hadfer
rhag troi'n lledfyw ddiffaith:
adfer mireinder ei iaith,
ailfeithrin rhin yr heniaith.

Ei iaith oedd iaith yr ieithoedd iddo ef;
hi oedd iaith ei werthoedd;
yn ei waith a'i ddarlithoedd
perffeithydd o ieithydd oedd.

Heb Elwyn, pa hwb eilwaith i'n gwerthoedd
rhag troi'n garthion diffaith?
Hebddo a'i nawdd, bydd ein hiaith
bêr eto'n waeth na bratiaith.

Llawn hiwmor oedd. Llonnai 'mryd; doniolwch,
digrifwch gwâr hefyd:
ffraethineb bro ei febyd
oedd stôr ei hiwmor o hyd.

Ond â'r hiwmor yn drymach; ond â'r iaith
yn drist, yn sobreiddiach,
mae ei geirfa'n fil gwannach
a'i hen gystrawen mewn strach.

Galarai uwch bwnglerwaith; llawenhai'n
llawn hwyl uwch gorchestwaith,
ail-greu'n gyfan, rhag anrhaith,
lendid cynhenid ein hiaith.

Yn eigion ein calonnau, hiraethu
y mae'r iaith a minnau
yn dristach a dwysach dau,
dwysach o weld ei eisiau.

Mae'r ing am amryw a aeth â'u hiwmor
ymaith yn ing helaeth,
ond am fy ffrind mwyaf ffraeth
mae dyfnach, chwerwach hiraeth.

Alan Llwyd

Er cof am John Elwyn Hughes

O'i Fraichmel mentrodd Elwyn, – a ffynnu
rhwng ffiniau ei ddyffryn.
Graddiodd o gnwd ei gwreiddyn,
yn ei gwsg ei amdo gwyn.

Y cyntaf fu'n brif y Cownti – o'i fro,
yn fraint i'w thrysori.
Angor fynnodd flaenori'r
elfen iaith, ei sylfaen hi,

Casglwr, rhoes y gŵr ar goedd – ein hanes,
hen enwau, teuluoedd.
Athrylith llu darlithoedd,
a thrwy ei oes athro oedd.

Â'i lygaid, craff olygydd, – denu'r graen,
dyna'r grefft gaed beunydd.
I'n hiaith, dyma'r perffeithydd,
yn y bôn un safon sydd.

Ymrwymiad â Charadog, – trwy Elwyn
trioleg ardderchog.
I'r glew, mewn print, gwisgo'r glog,
rhoi inni gof coronog.

Haliwch, Howgets, ar elor – un o'r praidd
Draw i'r pridd yng Nghoetmor.
Rhoddwn gân yr hedd yn gôr,
ni'r egin hebddo rhagor.

Richard Lloyd Jones
(cyn-ddisgybl)

Ysgol Dyffryn Ogwen 1957, Myrddin Griffith, J Elwyn Hughes, John Ffrancon Davies, Elwyn Roberts, Clive Llywelyn, Ffrancon, Vincent ac eraill

Rhai o Atgofion John Ffrancon Davies (Maes Coetmor gynt)

Er tristwch y dydd, roeddwn yn falch o fod yng Nghapel Jerusalem ar ddiwrnod angladd Dr John Elwyn Hughes – ffrind i mi am bron wyth deg o flynyddoedd.

Rwy'n cofio dechrau efo fo yn Ysgol Dyffryn Ogwen yn 1951, yn adeilad Ysgol Cefnfaes, efo prifathro newydd, Mr Pardoe, a oedd yn ddiarth i'r dyffryn. Pwy fuasai wedi meddwl, bryd hynny, bod un o ddisgyblion yr ysgol yn y swydd bwysig honno ryw ddiwrnod.

Er bod Elwyn wedi mynd ymlaen efo Ffrangeg a Lladin, a finnau hefo Cemeg a Mathemateg, roedd rhaid cyfarfod ar y cae chwaraeon. Dyna amser da, a mi roedd Elwyn yn gefnwr cryf y tu ôl i mi yn nhîm pêl-droed yr ysgol. Collodd ei dempar unwaith mewn gêm – yn Ysgol Penygroes, rwy'n meddwl. Doedd y dyfarnwr ddim yn dangos unrhyw fath o degwch i ni. "You're hopeless, ref", meddai Elwyn, a'r peth nesaf cafodd ei yrru oddi ar y cae. Mi wnaeth ei bwynt er mai colli wnaethom ni!

Roedd hefyd yn actor gwych, ac un o'r lluniau gorau sydd gen i ydi o fel milwr efo locsyn a helmed yn y ddrama 'Alexander Fawr'. Neuadd Ogwen yn llawn, a phawb yn hapus!

Mi es i Lundain yn ugain oed ond chefais i ddim anghofio Elwyn. Roedd mam yn dŵad ar y ffôn, "Es i Bangor efo Purple Motors, Elwyn oedd y dreifar. Hogyn clên ac yn gofyn amdanaf ti bob tro rwy'n ei weld o."

Dwn i ddim lle mae'r blynyddoedd wedi mynd, ond yn ddiweddar cefais lawer sgwrs hefo fo ar y ffôn. Ei gof fel finna yn berffaith. "Elwyn bach, sut wyt ti yn ffeindio amser i wneud cymaint?" "Hanodd", meddai, "yn enwedig am 'y mod i yn ceisio darfod llyfr arall. Beth wyt ti yn meddwl am dîm pêl-droed Cymru?" Da, yntê! Rwy'n siŵr dy fod yn hoffi bara brith. Mae gen Deilwen rysait da - mi yrra i o i ti". Dim byd rhy fawr na rhy fach!

Ffrind gonest gyda'r gorau – pwy fuasai eisiau mwy na hynny!

Natur o'n Cwmpas

Y Llysywen — teithiwr o fri

Pysgodyn hir a main tebyg i neidr ydi'r llysywen (neu'r sliwen), ac mae'n medru tyfu dros fetr o hyd. Dydi'r cen dros ei chorff na'i thagellau ddim mor amlwg ag ydyn nhw ar bysgod eraill. Bwyd y sliwen ydi pryfed a physgod mân fel crethyll y baw (sil y dom) a mag (pysgod ifanc) brithyllod, eogiaid a gwyniadau; hefyd, grawn (wyau) pysgod. Melyn ydi lliw bol sliwen ond gall lliw rhan uchaf y corff fod rhwng arian a llwyd-wyrdd golau neu dywyll.

Fel pysgodyn mudol, mae cylch bywyd y sliwen mor rhyfeddol â chylch bywyd yr eog a'r gwyniedyn, ond mae trefn y cylch i'r gwrthwyneb. Mae'r wyau'n deor ym Môr Sargasso, sef rhan o orllewin Môr Iwerydd, ac mae'r larfâu yn cymryd hyd at dair blynedd i groesi'r môr i aberoedd Cymru – taith o 6,500km – a dechrau datblygu'n sliwod aeddfed. Yna i fyny'n afonydd â nhw, ac aros i aeddfedu a chyrraedd llawn dwf cyn dychwelyd i Fôr Sargasso i fagu.

Pan ddôn nhw at raeadr wrth fynd i fyny afon, a hwnnw'n rhy uchel iddyn nhw fynd ymhellach, byddant yn dod allan o'r pwll islaw'r rhaeadr i dir sych. Yna, ymlithro fel nadroedd drwy'r gwair a thros greigiau i fyny uwchlaw'r rhaeadr cyn mynd yn ôl i mewn i'r afon. Y rhwystrau i sliwod yn ein hardal ni ydi rhaeadr y Bont Uchaf ar Afon Ffrydlas, a rhaeadr Ceunant Uffern ar Afon Gaseg. Fodd bynnag, yn ôl eu harfer drwy'r canrifoedd, mae'r sliwod yn llwyddo i oresgyn y rhwystrau hyn, ac mae rhai wedi cael eu dal uwchlaw'r ddwy raeadr – rhai cyn belled â'r Olchfa Uchaf ym mlaen Afon Ffrydlas ar ochr Gyrn. Yn niwedd y gwanwyn a dechrau'r haf yn Nant, Betws Garmon byddai naturiaethwyr yn arfer gwylio sliwod ifanc yn nadreddu i fyny'r creigiau ar ochr y rhaeadr yno. Fodd bynnag, mae'r sliwen erbyn hyn ar restr goch rhywogaethau dan fygythiad. Tybed a oes rhai ohonoch chi'r darllenwyr wedi gweld sliwen yn symud ar dir sych?

Mae'r sliwen yn cael ei henwi gennym mewn cymhariaeth gyffredin, sef dweud bod rhywun 'fel sliwan' am ei fod o neu hi yn medru llithro allan o sefyllfaoedd dyrys drwy fod yn slei neu'n gelwyddog.

Wyddech chi ...?

- fod trefn arbennig gan gantorion côr y wig, sef yr adar sy'n canu yn y bore bach. Y fronfraith sy'n datgan gyntaf, efo'r robin a'r fwyalchen, a hynny cyn i'r wawr dorri. I'w dilyn daw'r ysguthan, y dryw a'r teloriaid. Yna bydd y titw mawr, titw tomos las, llwyd y berth, y pincod a'r llinosiaid yn ymuno â'r côr.

- fod coed wedi bod yn tyfu ar lethrau ein mynyddoedd cyn uched â 600m ar un adeg. Mae enwau lleoedd fel Gyrn Wigau, Braich y Prysgyll, Cerrig yr Argoed ac Afon Berthen yn tystio i hynny.
- fod y dylluan glust fer, yn wahanol i fathau eraill o dylluanod, yn gwneud ei nyth ar y ddaear.
- Mae'r golofn hon yn rhoi sylw i ryfeddodau a gwahanol agweddau ar fyd natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth leol ac ar ffynonellau eraill. Rhowch wybod os ydych wedi gweld rhywbeth anarferol ym myd natur yn yr ardal. Anfonwch eich cyfraniadau at Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG ieuanwyn01@gmail.com 01248 600297.

Y Gerlan

Caren Brown, Cilwern, 14 Ffordd Gerlan, Bethesda, LL57 3ST.
(01248 602509 / 07789 916166)
carenelaine@hotmail.com
Linda Brown, 1 Gwernydd, Gerlan, Bethesda, LL57 3TY. (01248 601526)

Symud Tŷ
Gyrrwn ein cofion at Eirian Keogh sydd wedi symud ers rhai misoedd i Llety'r Adar ym Methesda ar ôl byw am rai blynyddoedd yng Nghiltrefnus, Y Gerlan. Dymunwn bob hapusrwydd iddi yn ei chartref newydd.

Penblwydd Arbennig
Bu i Donna Williams, Fronbant ddathlu ei phen-blwydd yn 50 oed yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr i ti Donna ar gyrraedd penblwydd arbennig. Gobeithio dy fod wedi cael penblwydd llawn hwyl.

Cydymdeimlo
Cydymdeimlwn yn fawr â Peter, Ian, Johnnie a Bet o Ciltrefnus Gerlan yn eu profedigaeth o golli eu brawd Arthur Robinson yn ddiweddar. 'Rydym yn meddwl amdanoch fel teulu.

Stori'r Iaith
Tybed ydi rhai ohonoch wedi bod yn dilyn y gyfres *Stori'r Iaith* ar S4C yn ddiweddar? Mae hon yn gyfres lle mae amryw o wynebau adnabyddus yn mynd ar daith bersonol i ddarganfod mwy am hanes yr iaith Gymraeg. Un o'r wynebau adnabyddus a gafodd gyfle i siarad am ei phrofiadau oedd Lisa Jên, Gwernydd a chawsom ei thywys ganddi i sawl lle cyfarwydd yn yr ardal a thu hwnt. Os nad yda chi wedi cael cyfle i'w wylio eto, da chi - cerwch i chwilio amdano!

Dyweddïad
Llongyfarchiadau i Alec Bedwyr Williams ac Emma Lauren Huskisson 16 Ffordd Gerlan sydd wedi dyweddïo. Pob lwc gan y teulu a ffrindiau.

Angen help yn y Caban
Os ydych chi'n chwilio am chydig o oriau o waith yn wythnosol, mae'r Caban a'r Caban Cysgu yn chwilio am rywun i helpu efo dyletswyddau glanhau. Os hoffech sgwrs bellach am y gwaith, gallwch ffonio Dewi Emlyn ar 07464676753 neu gysylltu trwy e bost cabancysgu@hotmail.com

post@llaisogwan.com

PARTNERIAETH OGWEN

Cyfaill Cymunedol

Mae Linda Brown yn awyddus iawn i greu cysylltiadau newydd yn ardal Dyffryn Ogwen – gyda'r henoed ac unrhyw un fuasai yn hoffi gael cwmni am orig bach i gael sgwrs ayyb.

Mae clwb arbennig – Clwb y Dyffryn os hoffai unrhywun ymuno ag o. Mae'n gyfle i gyfarfod a chymdeithasu bob pythefnos, ar bnawniau Mawrth, yn Gorffwysfan, Bethesda, rhwng 2 a 3.30. Mae rhaglen gweithgaredd yn ei lle, a the a bisged i bawb.

Mae modd i bobol gymryd mantais o'r gwasanaeth trafnidiaeth gymunedol y mae'r Dyffryn Gwyrdd yn ei gynnig i ddod i'r clwb a chael eich danfon adref yn ôl. Gellir archebu'r bws mini i'ch casglu, neu hefyd os oes gennych apwyntiad gyda'r meddyg, deintydd ayyb ac mae'r drafinidiaedth ar gael i chi am bris rhesymol i fynd a dod â chi yn ôl adref. Os oes unrhyw un angen help hefo unrhyw beth sydd yn eich poeni cysylltwch â Linda ar 07396 673768, cyfaill@ogwen.org

Beics Ogwen

Yn ddiweddar, rhedodd Megan Meeke gyfres lwyddiannus o weithdai trwsio beiciau i ferched ar ran Beics Ogwen. Dysgodd llawer o'r rhai oedd yn bresennol y wybodaeth a'r sgiliau hanfodol i wneud gwaith atgyweirio ar ochr y ffordd.

Dywedodd Joanna Melville-Richards (yn y llun): "Roeddwn i'n angerddol eisiau dysgu reidio beic. Hoffwn ddiolch i

Beics Ogwen am eu help a'u cefnogaeth."

Mae Beics Ogwen wedi derbyn rhoddion a chefnogaeth hael iawn eleni gan bobl Dyffryn Ogwen, ac rydym yn ddiolchgar iawn iddynt.

Mae gennym ni weithdy agored bob prynhawn Gwener, rhwng 1-4pm yng Nghanolfan Cefnfaes. Gallwch gael cyngor am ddim ar feiciau ac atgyweiriadau, yn ogystal â defnyddio beiciau, offer, ac ategolion drwy danysgrifio at beicsogwen.co.uk, am £6.99 y mis.

Ariennir Beics Ogwen gan y Loteri Genedlaethol a Llywodraeth Cymru.

Swpar Chwarel

Sesiwn gymdeithasol braf yng Nghanolfan Cefnfaes pob nos Fercher 4-6pm. Platiad o fwyd a chwmni mewn lleoliad cynnes. Croeso i bawb, unigolion a theuluoedd.

Am ddim - ond yn derbyn cyfraniadau tuag at yr achos. (Trafnidiaeth ar gael) lucinda@ogwen.org 07862694163

Clwb Bwyd Dyffryn Ogwen

Mae'r sesiwn yma sy'n rhannu bwydydd 'Fareshare' bob p'nawn Gwener yn parhau'i fynd o nerth i nerth. Am £3.50 cewch fagiad gwerth chweil o fwydydd da sy'n lleihau gwastraff, arbed arian a chreu cymuned werdd arall yn y Dyffryn. Mae'r Clwb yn digwydd 4-5pm bob dydd Gwener yn yr Hwb Cymunedol, 55 Styd Fawr Bethesda. Un gwirfoddolwraig sydd wedi bod yn cynorthwyo ers tro bellach ydi Natalia Breaiko o'r Wcrain. Mae hi'n gefnogol iawn i'n gwaith a braf oedd cael ei gweld ar raglen 'Heno' yn ddiweddar. Da iawn Natasha!

Am fwy o fanylion cysylltwch â huw@ogwen.org 07874382114

Cadwyn Ogwen

Mae Cadwyn Ogwen yn falch o groesawu Esme Sethi i'n tîm fel ein Cydlynydd Hyb Bwyd newydd. Bydd Esme yn gweithio gyda ni i baratoi archebion cwsmeriaid ar ddydd Iau yn Llaethdy Gwyn.

Cofiwch logio ar cadwynogwen.cymru i archebu cynnyrch lleol o safon uchel erbyn hanner dydd ar ddydd Mawrth i'w ddosbarthu neu ei gasglu ar brynhawn dydd Iau.

Gofod Gwneud

Oherwydd gwaith adeiladu parhaus yng Nghanolfan Cefnfaes, nid ydym yn cynnal sesiynau yn y Gofod Gwneud ar hyn o bryd. Gobeithiwn allu ail-lansio yn yr wythnosau nesaf gyda chynllun o ddigwyddiadau.

Yn y cyfamser, rydym yn gweithio gyda nifer o bobl y Dyffryn sy'n gwnïo i ddatblygu Grŵp Gwnïo Gofod Gwneud. Byddwn yn cynnal sesiynau agored i bobl wella eu sgiliau gwnïo. Cadwch lygad ar ein cyfryngau cymdeithasol am ddiweddariadau a dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf.

Gwirfoddoli

Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr dros y Dyffryn i helpu gyda phrosiectau y Bartneriaeth. Byddwn hefyd yn hapus i rhoi cymorth a gwybodaeth i wirfoddolwyr mudiadau a phrosiectau eraill yn y Dyffryn.

Rydym hefyd wedi bod yn cyd-weithio gyda leuenctid Gwynedd ac Ysgol Dyffryn Ogwen gyda myfyrwyr Gwobr Dug Caeredin. Hyd yn hyn mae'r disgyblion wedi helpu gyda Swpar Chwaral Hwb Ogwen, Pantri Pesda a sesiynau Hel Sbwriel o amglych y Ddyffryn. Croeso cynnes i bawb ymuno gydag unrhyw weithgareddau gwirfoddoli, cysylltwch gyda anna@owen.org / 01248 602131 am ragor o wybodaeth.

PLAID CYMRU DYFFRYN OGWEN

Daeth newyddion nol ym mis Tachwedd y bydde'r Aelod Seneddol Plaid Cymru, Hywel Williams, yn ymddeol pan ddaw yr etholiad gyffredinol nesaf. Mae Hywel Williams wedi bod yn aelod gweithgar a chydwybodol, ac fel cangen hoffwn ddiolch iddo am ei holl waith yn ein cynrychioli dros yr 20 mlynedd ddiwethaf.

Daeth y newyddion yma ag angen i ganfod ymgeisydd newydd i sefyll mewn etholiad San Steffan dros Plaid Cymru Arfon, tra bod yr etholaeth yn bodoli.

Y tri a ddaeth ymlaen ar gyfer yr enwebiad oedd Y Cynghorydd Beca Roberts, y Cynghorydd Paul Rowlinson a'r cyn gynghorydd Sir a Cynghorydd Cymuned Catrin Wager, gyda'r tri o Ddyffryn Ogwen. Ar ôl dau hystings difyr, gan gynnwys un ohonynt yng Nghlwb Rygbi Bethesda, lle roedd cyfraniadau cryf gan yr holl ymgeiswyr, dewiswyd Catrin Wager fel ymgeisydd dros dro.

Ar y 3ydd o Ragfyr cynhaliwyd Bore Coffi yng Nghanolfan Cefnfaes. Fe godwyd £306.30 ac roedd yn braf cael dod ynghyd. Diolch i bawb a ddaeth, ac a gyfrannodd. Bydd y Bore Coffi nesaf yn cael ei gynnal ar Ddydd Sadwrn 25 Mawrth am 10 o'r gloch.

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru
Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando
Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos
0808 164 0123
Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

MODURON PANDY Cyf.
MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio
01248 600619
moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk
Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY
UNIPART CAR CARE CENTRE

SIÂN GWENLLIAN
AELOD O'R SENEDD DROS ARFON
CYSYLLTWCH:
sian.gwenllian@senedd.cymru
01286 672 076
70 Stryd Fawr, Bangor
Senedd Cymru
Welsh Parliament
Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan
Gomisiwn y Senedd o gronfeydd cyhoeddus

JR SGAFFALDIAU Cyf.
JR SCAFFOLDING Ltd.
YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA,
GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk
Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)
CITB

Dilynwch Llais Ogwan ar Trydar **@Llais_Ogwan**

Nyth y Gân

Lili Wen Fach

Mor hynod gweld y blodyn yn deffro'n
Ein dyffryn bob blwyddyn;
Oer iddo ydyw'r priddyn
Yn ei gôt fel eira gwyn.

Er Cof am Dr J. Elwyn Hughes

Fe garodd ef y geiriau, a'u gosod
Yn gyson gyfrolau
Yn ddilys i'n meddyliau
Yma i ni eu mwynhau.

Trefn Natur

Edrychai'r lle fel adfail
Heb wyrdd-ddail ar y coed,
A llymder oedd o'n cwmpas
Yn gynfas dan ddwy droed.

Yn ysgafn ac yn dawel
Fu'r awel am yn hir;
Nid oedd yr un symudiad
Drwy'r wlad ar wyneb tir.

Mor frwnt yw oerni'n gaeaf,
Y cryfaf sy'n cael byw,
A'r rheini sydd â'u pŵer
Bob amser wrth y llyw.

Dafydd Morris

Bethesda

Mary Jones, maryeds@hotmail.co.uk (07443 047642)
Joe Hughes, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda (601902)

Ysbyty

Cofion a gwellhad buan at y cyfeillion sydd, ac a fu, yn yr ysbyty. Da deall eich bod yn gwella'n raddol, sef Glenys Rowlands, Adwy'r Nant; Nen Davies, Bryn Tirion; Phil Williams, Allt Penybryn.

Anfonwn hefyd ein cofion at Ann Thomas, Maes y Garnedd wedi iddi gael ei chipio i'r ysbyty. Mae hi bellach adra ac yn gwella, cofion atoch Ann a gobeithio y gwelwn chi o gwmpas yn fuan.

Yn yr ysbyty yn Abergele y bu Jessie Jones, Stryd Glanafon, lle cafodd driniaeth ar ei phenglin. Yr un yw'r cofion atoch Jessie ac y gwelwn chithau o gwmpas yn fuan.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â sawl teulu a fu mewn profedigaeth yn ddiweddar:-

Eifion a Jeni Francis a'r teulu, Maes Coetmor, wedi colli mam, mam yng nghyfraith, nain a hen nain ym Mrynsiencyn, sef Ellen Elizabeth Francis, ar 11 Chwefror.

Ceri a Dennis Dart, Alwyn, Delyth a'r teulu. Collodd Ceri ei brawd draw yn Seland Newydd ar 15 Chwefror, sef Thomas Gwyn Evans, yn 91 oed.

Bu farw Margaret Elizabeth Hume Davies, Llain y Pebyll, yn dawel yn Ysbyty Gwynedd ar 28 Ionawr, yn 76 mlwydd oed. Priod annwyl y diweddar Dafydd, mam Fiona, Hannah a Sara, mam yng nghyfraith Kevin, Greg a Paul. Nain hoffus Daniel, Enlli, Jack, Luke, Sam, Ruby, Bella, Molly, Chloe, Holly ac Evie. Hen nain Jacob, Gracie, Alex ac Amara. Cynhaliwyd ei hangladd fore Iau, 9 Chwefror, yng Nghapel Carmel, Rachub a Mynwent Coetmor. Gwasanaethwyd gan y Parchedig Dafydd Coetmor Williams, gyda Mrs. Helen Wyn Williams wrth yr organ. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch i gyd fel teulu.

Dathlu

Deunaw Oed

Dathlodd Owain Williams, Glanogwen, ei benblwydd yn 18 oed ar 4 Chwefror. Llongyfarchiadau! Gobeithio iti fwynhau'r parti!

Ymddeol

Efallai ichi golli gweld wyneb cyfarwydd yn Londis ers ddechrau'r flwyddyn! Wel mae Carys Parry bellach wedi ymddeol. Pob hwyl ar yr ymddeoliad Carys, er ein bod yn ei gweld yn aml yn gwirfoddoli mewn boreau coffi ac ambell i gymdeithas yn yr ardal.

John a Gwen ar ddiwrnod eu priodas

Pen-blwydd priodas arbennig

Priodwyd John a Gwen Davies yng nghapel Bethesda ar Fawrth 22ain, 1958, sef chwe deg pum mlynedd yn ôl. Llongyfarchiadau mawr iawn i'r ddau ohonoch a gobeithio y cewch ddiwrnod arbennig o ddathlu. A beth am ddathlu efo'r teulu gan bod croeso mawr i chi alw yn eu cartref yn 'Nhanysgrafell Isaf' ar y diwrnod, sef dydd Mercher, Mawrth 22ain.

Nia Williams, Capten Merched Clwb Golff St Deiniol

Diolchiadau

Dymuna Nia Williams ddiolch o galon am y negeseuon, cardiau, anrhegion a blodau a dderbyniodd ar achlysur ei hymddeoliad gan eu gwerthfawrogi yn fawr iawn.

Ond ni fydd Nia yn segur yn ystod ei hymddeoliad gan iddi gael ei dewis fel Capten y Merched yng Nghlwb Golff St Deiniol, Bangor, a'r un yw'r diolch ganddi am y negeseuon a'r cardiau o ddymuniadau da a dderbyniodd. Mwynha'r cyfnod Nia.

Ogwen
Adferiad Corfforol
Physical Rehabilitation
Proffesiynol, diogel a chyfrinachol
LLEDDFU POEN Cefn, cyhyrau, esgyrn, cymalau, a thensiwn cur pen
Eli Lichtenstein
✆ 07743373895 ✉ Ogwen.Physical.Rehab@gmail.com

Dilynwch Llais Ogwan ar Trydar **@Llais_Ogwan**

STEPHEN JONES
TREFNWR
ANGLADDAU CYF
PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS
BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

Yr Eglwys Unedig

Y Gymdeithas
Ar nos lau, 9 Chwefror, daeth criw da ynghyd i chwarae Bingo Cerddorol gyda Mr. Edwin Humphreys, Nefyn, yn galw. Cawsom noson hwyliog, gyda Mr. Humphreys yn cyfeilio'n fedrus ar yr allweddellau. Rhaid dweud ein bod, fel cynulleidfa, yn rhyfeddol o wybodus am ganeuon pop hanner olaf y ganrif ddiwethaf, ac fe gawsom fwynhau canu yr hen ffefrynnau.

Bore Coffi
Cynhaliwyd Bore Coffi llwyddiannus dros ben yn y Festri ddydd Sadwrn, Chwefror 25, er budd yr argyfwng dychrynllyd yn Nhwrci a Syria yn dilyn y daeargryn a ddigwyddodd yno. Daeth nifer fawr i gefnogi'r apêl, a gyda'r casgliad a wnaethpwyd yn ystod oedfa'r bore Sul cynt, gallwn gyhoeddi bod swm hynod o anrhydeddus wedi dod i law. Cyhoeddir y swm terfynol yn Llais Ogwan y mis nesaf. Mae ein diolch yn ddi-ffuant i bawb am eu haelioni arferol – mae gan gymuned Dyffryn Ogwen galon fawr mae'n amlwg.

Cofion
Yn ôl ein harfer, anfonwn ein cofion cynhesaf at y rhai sydd yn gaeth i'w cartrefi, neu'n dioddef o anhwylder. Da deall bod Rhiannon Ifans yn gwella'n araf.

Dydd Gweddi Byd-eang
Erbyn y bydd y Llais wedi dod o'r wasg, bydd y gwasanaeth cymunedol arbennig yma wedi'i gynnal yn y Festri. Bydd adroddiad amdano yn y rhifyn nesaf.

Apel Honduras
Eto, bydd adroddiad ar y daith gerdded a gynhelir er budd yr achos hwn yn y Llais y mis nesaf.
Cyhoeddiadau'r Sul
Mawrth 19: Canon Idris Thomas (10)
Mawrth 26: Gweinidog (10)
Ebrill 2: Y Parchedig Geraint Roberts (5)
Ebrill 9: Undebol yng Nghapel y Rhos, Llanrug (10) Cymun
Ebrill 16: Y Parchedig Cledwyn Williams (10)
Ebrill 23: Gweinidog (10)
Ebrill 30: I'w drefnu (10)

Angladdau
Cynhaliwyd angladd y diweddar Ddr. John Elwyn Hughes yn y capel ddydd Mercher, Chwefror 8, pryd y daeth tyrfa fawr ynghyd i dystio i'r parch a fu ganddynt i un a wnaeth gymaint dros yr iaith Gymraeg, a hanes ei gymuned.

Yna, ddydd Llun, Chwefror 13, eto yn y capel, cynhaliwyd angladd y ddiweddar Mrs Elina Owen, gweddw ein cyn-weinidog, Y Parchedig John Owen. Unwaith eto, daeth tyrfa deilwng iawn i ffarwelio ag un a fu'n hynod o deyrngar i i holl agweddau bywyd y capel. Mae'n chwith iawn ar ei hôl.

Yng Nghapel Seion, Llanrwst, y bu arwyl y diweddar Ddr. John Ellis Jones – ysgolhaig, Cristion a Chymro pybyr. Diddorol oedd deall iddo fod yn arbenigo mewn cleddyfa, ac fel arwydd o'u parch tuag ato, daeth nifer o aelodau o'r clwb y bu'n rhan ohono tan yn ddiweddar i'r angladd, gan ffurfio porth bwaog y tu allan i'r capel.

Cofiwch bod yr oedfaon i'w clywed dros y ffôn bob tro – croeso cynnes iawn i bawb sydd am ymuno â ni.
A ninnau'n dathlu Gŵyl ein Nawddsant ym mis Mawrth, dyma bennill cyfarwydd, ac amserol, o weddi Elfed:

Cofia'n gwlad, Benllywydd tirion,
Dy gyfiawnder fyddo'i grym:
Cadw hi rhag llid gelynion,
Rhag ei beiau'n fwy na dim:
Rhag pob brad, nefol Dad,
Taena d'adain dros ein gwlad.



Eglwys Crist, Glanogwen

Brysiwch wella!
Daliwn i gofio am ein haelodau a'n hanwyliaid sydd wedi bod yn wael yn ddiweddar, mewn ysbyty neu yn eu cartref, gan ddymuno gwellhad buan iddynt; cofiwch roi gwybodaeth os gwyddoch am unrhyw un sydd angen gweddi, ymweliad, neu Gymun yn eu cartref. Dymuniadau gorau a gwellhad buan i bawb sydd yn disgwyl llaw-driniaeth.

Enillwyr Clwb Cant mis Chwefror:
£40: Rhif 118 – Mrs Rhiannon Jones
£20: 1 – Alex Ball
£15: 24 – Lester Bath

Llongyfarchiadau i'r enillwyr! Tynnir y gwobrau lwcus yng Ngwesty'r Douglas ar y nos Wener olaf o bob mis am 7.30; croeso cynnes i bawb.

Codi Arian
Cynhelir Bore Coffi yng Nghanolfan y Cefnfaes for Sadwrn, Mawrth 18, at gynnal yr eglwys. Diolch am bob cefnogaeth.

Apêl Eglwys Glanogwen
Braf yw cael nodi bod digon o arian i ddechrau ar y gwaith atgyweirio – ond dechrau yn unig y bydd hyn! Bydd cwmni lleol yn cychwyn ar y gwaith ar ol y Pasg, ac oherwydd diogelwch y cyhoedd, bydd y giat yn Pantglas yn cael ei chau am tua 6 wythnos tra bydd y gwaith ymlaen.

Er hyn, bydd gwasanaethau yn dal i'w cynnal fel arfer ar fore Sul a bore Mercher. Mae'n ofid bod presenoldeb ar fore Sul wedi lleihau cymaint dros y misoedd diwethaf, a gobeithiwn y bydd aelodau yn dod yn ôl i'r eglwys gyda'r tywydd gwell.

Bydd rhaid ail-ddechrau codi arian i'r Apêl er mwyn trefnu mwy o'r atgyweirio. I gyn-aelodau sydd ddim yn lleol, mae'r safle GoFundMe yn dal ar agor – safle wê GoFundMe, Glanogwen yn y bwlch 'search' ac ymlaen. Neu anfon siec yn daladwy i 'Cronfa Apel Glanogwen' a chysylltu a'r wardeniaid am gyfeiriad.

Amlenni Rhodd
Diolch i bawb am eu cyfraniadau cyson trwy'r amlenni wythnosol – mae'r cyfraniadau hyn yn holl bwysig tuag at gostau'r eglwys. Cofiwch hefyd gysylltu os oes gennych amlenni ac yn methu mynychu'r eglwys ar hyn o bryd, gallwn alw amdanynt.

Gwasanaethau
Pob Bore Sul am 11.00 y bore – Cymun Bendigaid.

Pob Bore Mercher am 10.30 y bore – Cymun Bendigaid neu Foreol Weddi.

Croeso cynnes fel arfer i bawb i'n holl wasanaethau.

Manylion cyswllt
Gellir cysylltu a'r ficer, y Parchedig Ddoctor Gareth Lloyd ar 07847125225 ar unrhyw fater yn ymwneud a'r eglwys, gan gynnwys trefnu priodas, angladd neu fedydd.

A mae Barbara (600530) a Glenys (600371) ar ben arall y ffôn os am gael sgwrs.

Enillydd y fasged o nwyddau gofal – Mr John Turner, Mynydd Llandegai. Diolch yn fawr i bawb a brynodd sgwâr.

Elwyn Jones & Co
hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP
- Cyfreithwyr -
123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224
Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar
Swyddfeydd eraill:
Llangefni (01248) 723106 *Porthaethwy (01248) 719517* *Benllech (01248) 852782*
Caernarfon (01248) 673616 *Pwllheli (01758) 703000)*

MODURDY FFRYDLAS
Profion M.O.T.
PERCHNOGION
A.LL. ac R.W. WILLIAMS
Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦
GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦TEIARS A BATRIS♦
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN
Ffôn: 600 723
E-bost: ffrydlas@btconnect.com

Cerddoriaeth Byw yn dychwelyd i Fic Bethesda

Gyda lansiad meddal dros ŵyl Ara' Deg diwedd haf diwethaf, mae tafarn Fic Bethesda wedi ail agor ei drysau ac yn cynnig cerddoriaeth byw pob dydd Gwener gyda detholiad o gerddorion lleol a rhyngwladol i ddiddanu trigolion y cylch.

Dechreuwyd cyfres o gigs yma ar nos Wener y 10fed o Chwefror gyda pherfformiad gan bedwarawd ifanc cyffroes SOAP. Mae'r band brwdfrydig yn dod yn enw cyfarwydd wrth iddynt gefnogi Celt yn gig Nadolig Neuadd Ogwen, a chware gigs yn nhafarn y Siôr a'r clwb rygbi yn Ionawr.

Mae aelodau SOAP yn cynnwys dau gerddor o Fethesda Adam Boggs (prif lais, gitâr) a Wil Owain (guitar) tra bod Huw Fôn Jones (bas) o ochrau Caernarfon a'r drymiwr Caio Owen o Benygroes.

Mae'r band yn chware set brwdfrydig o gyfansoddiadau Cymraeg a covers o roc adnabyddus gyda'u caneuon yn dal y glust gyda *Na Fo -Na Hi* a'u cân newydd *Wedi Laru* yn plesio'r gynulleidfa yn fawr.

Mae SOAP yn cynllunio mynd i'r stiwdio yn yr wythnosau nesaf felly bydd siawns clywed eu tonau ar y radio a meddalwedd ffrydio yn fuan.

Megis dechrau mae nosweithiau o gerddoriaeth byw yn Fic Bethesda . Mae'r deuawd arbrofol Hap a Damwain hefyd wedi perfformio a bydd y cerddor o Awstralia, Adam Cole (sydd wedi perfformio yn Neuadd Ogwen hefo' i fand Trappist Afterland) yn chwarae'r Fic ar Fawrth yr 17eg.

Am fwy o wybodaeth www.facebook.com/FicBethesda/>

Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
ionarhiwen@hotmail.co.uk
(01248 355336)

Cydymdeimlo
Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Gareth Rowlands, 9 Bro Rhiwen a oedd yn 50 oed. Un o Mynydd Llandegai yn wreiddiol, yn fab i Desmond a Margaret Rowlands a brawd i Geraint sydd hefyd yn byw yn Rhiwlas. Roedd Gareth a'i gymar Angie yn byw ym Mro Rhiwen ers dipyn o flynyddoedd ac roedd yn llysdad caredig i Linzi, Jamie a Sam. Byddai i'w weld yn ddyddiol yn mynd â chi hwn a'r lall am dro. Roedd hefyd yn brysur yn paentio tai. Bu'r angladd yn eglwys Sant Cedol, Pentir.

Cofio'r Dr John Elwyn Hughes
Ar ddechrau'r chwe degau roedd ein bws i Ysgol Dyffryn Ogwen yn llawn wedi codi plant Glasinfryn ac roedd amrywiaeth yn ein dreifio yno. Un ohonynt oedd Elwyn Hughes ac roeddem yn reit hy gydag o, yn holi pwy oedd ei gariad ac yn y blaen, a doedd o ddim dicach. Mr Davies oedd yr athro Cymraeg bryd hynny ond fe gafodd ei apwyntio yn brifathro mewn ardal arall. Fel plant yn teithio ar y bws ysgol cawsom ddipyn o fraw pan gyflwynodd Mr Pardoe yr athro Cymraeg newydd! O'r dechrau cyntaf roedd yn gallu bod yn llawdrwm ond fel yr eglurodd flynyddoedd wedyn roedd yn rhaid iddo fod felly gan ei fod wedi dreifio llawer ohonom i'r ysgol a ninnau wedi bod yn hy ac yn tynnu ei goes yn aml. Mae sawl un wedi cyfeirio ato fel colli un a oedd yn caru ei iaith a'n diwylliant. Pan oeddem yn y 6ed dosbarth byddai ar adegau yn trafod un gair drwy gydol y wers. Ein cydymdeimlad atoch fel teulu.

Brysiwch wella
Mae sawl un wedi bod yn cwyno yn ystod y misoedd yma, anfonwn ein cofion atoch. Roeddem yn falch o ddeall fod Eirwen Williams wedi cael llawdriniaeth wedi hir aros. Brysia wella Eirwen.

Celf yn y gymuned
Ar ddydd Sadwrn 28 Ionawr daeth y gymuned ynghyd i ddigwyddiad dadorchuddio'r paneli teils.

Ym mis Tachwedd 2022 cynhaliwyd nifer o weithdai clai dan arweiniad Lyn Gallagher, Penmon Pottery.

Ffrwyth gwaith y rhai fynychodd y gweithdai, ynghyd â gwaith rhai o ddisgyblion Ysgol Gynradd Rhiwlas, sydd nawr i'w weld yn yr ystafell gymunedol a ger y gegin yn y neuadd.

Arianwyd y prosiect gan Mantell Gwynedd mewn cydweithrediad â Phwyllgor Rheoli Neuadd Bentref Rhiwlas.

Dywedodd Elfyn Jones-Roberts, Cadeirydd Neuadd Bentref Rhiwlas, "Mae di bod yn brofiad gwych; gweld pawb yn dod at ei gilydd ac yn defnyddio'r neuadd at bwrpas cymunedol. Mae croeso i chi ddod draw i'r neuadd i weld y paneli, ma' nhw'n werth ei gweld."

Contractwyr Trydanol
Jones & Whitehead Cyf
Swyddfa Gofrestredig
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU
Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982
E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

Cynghorwyr Sir Dyffryn Ogwen — Plaid Cymru

Tregarth a Mynydd Llandygai • cynghorydd.BecaRoberts@gwynedd.llyw.cymru • 07436 927237
Gerlan • cynghorydd.EinirWynWilliams@gwynedd.llyw.cymru • 07747 690456
Canol Bethesda • cynghorydd.RheinalltPuw@gwynedd.llyw.cymru • 07789 742092
Arllechwedd • cynghorydd.DafyddMeurig@gwynedd.llyw.cymru •07765 400140
Rachub • cynghorydd.PaulRowlinson@gwynedd.llyw.cymru • 07949 034967

HYWEL WILLIAMS
AELOD SENEDDOL DROS ARFON

CYSYLLTWCH:
01286 672076
70 Stryd Fawr, Bangor
hywel.williams.mp@parliament.uk
YMA I BOBOL DYFFRYN OGWEN AC ARFON

CHWILAIR

DYWEDIADAU A GEIRIAU PESDA

G	A	A	W	F	H	R	P	I	E	J	L	C	M	B	V	B	H	X	J
L	U	I	S	V	S	H	I	W	A	L	W	Y	N	T	E	I	M	B	G
A	V	H	M	D	W	H	S	U	Z	M	X	V	A	W	D	D	N	O	A
W	P	A	U	Q	U	P	T	S	O	F	R	P	Y	I	Q	Z	G	N	R
T	P	A	C	O	G	S	I	W	G	N	I	C	Y	L	E	O	M	C	H
R	C	Y	U	M	W	N	L	P	O	Y	R	I	A	F	S	Z	U	L	T
A	F	W	D	X	U	P	L	W	I	R	H	C	Q	F	H	W	E	U	H
N	O	L	Y	E	E	G	I	E	O	D	M	H	E	N	P	T	T	S	C
N	B	L	B	C	U	U	O	J	P	L	O	T	M	Y	I	V	V	T	D
A	C	N	B	B	F	R	B	F	O	G	N	W	J	D	V	I	I	R	R
U	X	Y	I	M	H	T	W	T	O	I	S	K	N	N	O	P	W	R	C
M	K	C	C	B	O	R	R	C	P	X	V	R	Y	Y	H	S	T	M	R
E	W	W	F	Y	J	D	W	M	Z	H	B	C	W	M	O	S	C	R	A
I	X	A	N	I	L	X	I	J	J	M	B	W	T	I	E	X	M	D	X
K	F	L	L	U	P	L	C	Q	Y	O	I	L	F	D	E	R	Z	Q	R
O	C	L	T	L	I	H	E	B	R	W	N	G	D	E	G	W	S	L	Z
E	B	E	A	L	N	J	K	J	C	L	N	L	R	W	V	O	G	J	P
W	P	G	L	S	O	F	W	J	J	Q	U	L	F	S	V	T	X	E	U
G	H	O	S	L	Z	E	E	A	S	W	A	D	A	N	F	X	I	W	T
Z	C	H	K	V	A	G	B	C	N	K	A	D	S	I	K	O	G	D	H

Yn y Chwilair mis yma mae DEUDDEG o DDYWEDIADAU (9) A GEIRIAU PESDA (3) i'w darganfod. Mae'r dywediadau a'r geiriau yn dod o erthygl laith Pesda Mary Jones, yn y Llais. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân). Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd, LL57 3NW, erbyn 31 Mawrth. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr. Wrth ddarllen trwy rhifyn mis diwethaf gwelais bod un person wedi bod yn lwcus iawn, sef Judith Hughes, Llangoed; ei henw hi oedd y cyntaf allan o'r het gyda'r Chwilair, a hefyd hi a enillodd wobr y Croesair. Efallai bydd rhywun arall yr un mor lwcus y mis yma!

Nifer fawr ohonoch wedi methu enw'r llong ARTHUR WYATT, ac wedi darganfod COMET yn y Chwilair. Rwyf wedi fy synnu cymaint o trigolion Bethesda a'r cylch oedd wedi buddsoddi mewn rhai o longau Bangor yn y cyfnod 1830 – 1879. Dwi yn credu mai dyma'r tro cyntaf i chi, Dewi Lewis-Jones, roi cynnig ar y Chwilair, er na fuoch yn llwyddiannus y tro yma. Daliwch ati!

Dyma atebion Chwilair Chwefror: Alice Mary; Anne and Catherine; Arthur Wyatt; Cambria; City of Bangor; Douglas Pennant; Glanogwen; Harriet; Heather Bell; Mary Grace; Port Penrhyn; Three Susans.

Dyma enwau'r rhai a gafodd yr atebion cywir: Elizabeth Buckley, Tregarth; Rosemary Williams, Tregarth; Doris Shaw, Bethesda; Gwen Davies, Bethesda; Nia Wyn Bagnall, Llandygai.

Enillydd Chwefror oedd: Doris Shaw, Arafa Don, Bethesda.

Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
Angharad Williams, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
Gwenda Davies, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

Diolch
Dymuna y ddiweddar Rhianwen Jones, Bryn Awel, Llandygai, Coed Hywel gynt, ddiolch yn fawr iawn i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad ynghyd a'r rhoddion caredig a dderbyniwyd er cof, a fydd yn cael ei gyflwyno i Gartref Rhos, Brynsiencyn.

Cofion
Dymuniadau gorau i Carys O'Connor, 7 Godre'r Parc, gan iddi gael codwm gâs a thorri ei braich tra'n mynd â'r ci am dro. Brysiwch wella Carys.

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau i John a Pat Roberts, 'Eilian', Talgae, oedd yn dathlu priodas ddeiamwnt, sef chwe deg mlynedd o fywyd priodasol ar Fawrth 2il, oddi wrth y teulu, Bryn a Pauline, Gerallt a Vicky, Islwyn a Rhian. Gobeithio i chi gael diwrnod da.

Pen-blwydd
Pen-blwydd hapus iawn i Mrs Linor Holland oedd yn dathlu ei phen-blwydd yn naw deg a phump ddechrau'r mis. Cofion cynnes iawn atoch oddi wrth yr holl deulu a'ch ffrindiau lu.

Cydymdeimlad
Anfonwn ein cydymdeimlad tuag at deulu Robin Ellis 'Tanrhiw' Hen Dyrpeg, sef Glenda, Susan ac Andrew a'u teuluoedd o golli gŵr a thad annwyl wedi cyfnod o waeledd.

Bu farw Patricia Florence, 10 Pen y Ffriddoedd yn Ysbyty Gwynedd .

Cydymdeimlwn gyda'i gwr Tommy, y plant Keeley, Les, Tommy, Linda, John a gweddill y teulu. Bu ei hangladd yn Eglwys Glanogwen ar Chwefror 26.

Bu farw John Ellis Jones, Fronheulog, Sling, ar lonawr 28 yn 93 oed . Bu mewn cartref gofal yn Llanberis yn ystod y cyfnod diweddar. Roedd yn briod â'r ddiweddar Ilse Renne a bu'n ddarlithydd yng Ngholeg y Brifysgol Bangor am gyfnod maith. Bu ei angladd yng Nghapel Seion, Llanrwst, ei dref enedigol, ar Chwefror 20. Anfonwn ein cydymdeimlad at ei blant, Angharad Wyn, Rhodri Caradog, Catrin Rhiannon a'i ŵyr, Gruff Morgan.

Ar Chwefror 19 daeth y newydd am farwolaeth Robert Gwynedd Ellis, Tanrhiw, Hen Dyrpeg yng Nghartref Ceris Newydd, Bangor. Cofiwn am Robin yn gweithio am flynyddoedd yn Neintyddfa Gwilym Davies ym Methesda. Cydymdeimlwn gyda'i briod Glenda, ei blant Andrew a Susan , a'i wyrion Stephen a Chloe. Bu ei angladd yn Amlosgfa Bangor ar Fawrth 2.

Merched y Wawr Cangen Tregarth
Ar Chwefror 6 croesawodd llywydd y gangen, Carol Jones y dylunydd a'r gôf Ann Catrin i siarad ac arddangos ei gwaith. Rydym yn nabod Ann ym mhentref Tregarth gan iddi gael ei geni a'i magu yn fferm Bryn Cul yn ferch i'r diweddar Joe a Valmai Evans. Bu ei mam yn aelod ffyddlon iawn o'r gangen yma. Siaradodd am ei haddysg yn Ysgol Tregarth, Ysgol Dyffryn Ogwen, Coleg Menai ac yna y Brifysgol yn Brighton lle astudiodd Celfyddyd Gain. Bu'n gweithio yn ei gweithdy yng Nglynllifon cyn agor siop Iard yn Stryd y Plas, Caernarfon gyda dwy artist arall. Gwelsom enghreifftiau o'i gwaith ar y sgrin a chawsom gyfle i weld a phrynu ei gwaith cywrain, hardd.

Wedi damwain fawr yn ei char rai blynyddoedd yn ol bu raid iddi roi'r gorau i greu gwaith mawr a thrwm fel gôf a chychwyn creu gwaith gemydd hardd o aur, arian a metalau amrywiol. Mae'n dylunio a chreu mwclis, breichledau, clustdlysau a modrwyau unigryw. Mae ei gwaith yn werth ei weld ac mae ymweld â Siop Iard yn brofiad cofiadwy a difyr gyda chroeso cynnes gan Ann a'r ddwy artist arall ar Stryd y Plas.

Diolchwyd i Ann am noson hynod o arbennig.

Enillwyd y gystadleuaeth emwaith gan Jen Margiad.

Llongyfarchwyd Jen a Iona ar ddathlu penblwydd arbennig a chofio am un o'n haelodau fu farw sef Elina Owen, Bethesda. Cydymdeimlwyd gyda Meinir ac Olwen wedi colli Rhianwen, Coed Hywel, un arall fu'n aelod o'r gangen.

Yng nghyfarfod Mis Mawrth , ar Fawrth 6 am 7.30 yn Festri Capel Shiloh byddwn yn dathlu Gwyl Ddewi gyda bwffe ac ar Fai 8 cawn ein diddanu gan Bethan Catrin, Nant yr Eira. Ymunwch gyda ni am noson wych!

Eglwys y Santes Fair Gelli

Gwasanaeth bob dydd Sul am 9.30yb.

Gweler hysbysfwrdd yr eglwys am wasanaethau'r Pasg.

Diolch yn fawr i bawb wnaeth gefnogi'r Te Crempog. Roedd yn bnawn difyr iawn a braf gweld criw da yma.

Mae gennym Te Bach Pasg dydd Sadwrn Ebrill 1af am 1yp.

Am unrhyw fater ynglŷn â'r eglwys, cysylltwch â'r Parch Ddr Gareth Lloyd, Ficer ac Arweinydd Bro Ogwen ar 01248361521

Capel Sheilo Newydd

Dyma'r oedfaon yn Shiloh am yr wythnosau nesa, am 5 o'r gloch
Mawrth 19 – Dr Ian Morris
Mawrth 26 – Eric Jones, Bangor
Ebrill 2 – Sul y Blodau. Olaf Davies, Llandegfan
Ebrill 9 – Sul y Pasg. Dewi Morris, Porthmadog
Ebrill 16 – Dafydd Iwan, Caeathro
Ebrill 23 – Richard Lloyd Jones, Bethel

Cofiwch am Ddrws Agored yn Shiloh Newydd bob bore Gwener rhwng 10 a 12 o'r gloch am sgwrs, paned a chwmni.

Ni fu ein cynweinidog, Philip Barnett, Almondury, Swydd Efrog, yn dda yn ddiweddar a methodd ei gyhoeddiad yma ar Fawrth 5. Anfonwn ein cofion ato ac am iachâd buan gan gofio at ei wraig Catherine hefyd.

Sefydlwyd 1969
m.hughes a'i fab
CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
garribryn@aol.com
Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio. Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant. Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.

CAFFI
COED Y BRENIN
1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550
Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)
Cinio arbennig bob dydd Iau
Bwyd i'w gario allan
Gwasanaeth arlwyo ar gyfer partïon o bob math – plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)
Prisiau rhesymol
ORIAU AGOR
D. Mercher, Iau, Gwener 8.00 – 2.30
Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

YSGOL TREGARTH

Kerbcraft
Mae disgyblion blwyddyn 2 wedi derbyn hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Sgiliau Cerddwyr Ifanc yn ddiweddar. Mae pob un plentyn wedi cael budd sylweddol o'r cynllun wrth iddynt dderbyn hyfforddiant ymarferol ar sut i groesi'r ffordd yn ddiogel. Diolch o galon i Shirley a Manon am hyfforddi'r disgyblion.

Gweithdy Technocamps
Cafodd disgyblion blwyddyn 1 a 2, y profiad o gymryd rhan mewn gweithdy TGCh (meddwl yn gyfrifiadurol a chodio). Daeth aelodau o'r tîm technocamps sy'n gysylltiedig â phrifysgol Bangor draw atom i gynnal gweithdai diddorol er mwyn datblygu sgiliau a gwybodaeth y disgyblion. Cafodd dosbarth Llywelyn gyfle i ddatblygu eu sgiliau codio gan reoli adnodd sphero. Byddwn mewn cysylltiad â'r tîm technocamps yn fuan i drefnu gweithdy gwahanol ar gyfer y tymor nesaf.

Chwaraeon
Bu rhai o blant blwyddyn 5 a 6 yn cynrychioli'r ysgol mewn cystadleuaeth athletau dan do draw yng nghanolfan Brailsford ar gychwyn y mis. Ar ôl cryn dipyn o ymarfer yn yr ysgol, cafodd 9 plentyn eu dewis ar gyfer y tîm. Roedd pob plentyn yn cymryd rhan mewn dwy gystadleuaeth trac ac un maes. Rhoddodd pob un aelod o'r tîm 100% i bob gweithgaredd a llwyddodd y tîm i orffen yn y 4ydd safle. Pob un wedi mwynhau'r profiad o gynrychioli'r ysgol mewn gweithgaredd gwahanol a newydd.

Welsh Whisperer
Am brofiad gwych oedd cael croesawu'r Welsh Whisperer atom i gyfansoddi cân am yr ysgol. Roedd y plant llawn brwdfrydedd ac wrth eu boddau yn trafod yr hyn sy'n wych am fod yn blentyn yn Ysgol Tregarth. Roedd y gân yn anhygoel gan ystyried mai bore yn unig gymerodd i'w chyfansoddi. Braf oedd gweld dysgwyr cyfnod allweddol 2 yn cyd-weithio ar brosiect, trafod eu balchder, ac yna ei berfformio i weddill yr ysgol. Roedd y plant, a'r staff yn sicr wedi mwynhau'r perfformiad gan y dyn ei hun i orffen y dydd. Rydym yn edrych ymlaen at ei groesawu yn ôl yn ystod y mis hwn.

Gwisga be ti'n garu
Bu cryn ddathlu a chofio am Nawddsant y Cariadon ar y diwrnod arbennig, pan ddaeth pawb i'r ysgol yn gwisgo eu hoff ddilledyn. Diolch yn fawr iawn i rieni'r ysgol am drefnu diwrnod 'gwisga be ti'n garu' er mwyn codi arian ar gyfer yr ysgol a dathlu diwrnod Santes Dwynwen. Cafwyd gweithgareddau lu ym mhob dosbarth – pawb wedi mwynhau.

Demon Dentist
Cafodd disgyblion CA2 bore llawn hwyl yn gwylio y 'Demon Dentist' yn Venue Cymru. Pawb wedi mwynhau'r perfformiad anhygoel gan y cast. Sbardunodd ddigon o chwerthin a chwilfrydedd ymysg y dysgwyr. A yw ein dannedd yn ddiogel o dan ein clustogau yn Nhregarth tybed?

Dydd Miwsig Cymru
Mae plant yr ysgol yn hoff iawn o gerddoriaeth Cymraeg a pha ffordd well i ddathlu Dydd Miwsig Cymru na chael prynhawn o garioci. Roedd gwledd o ganu caneuon gan artistiaid fel Bryn Fôn, Dafydd Iwan, Yws Gwynedd a'r Welsh Whisperer gyda phawb yn mwynhau.

Dathlu Blwyddyn Newydd Tseineaidd
Bu rhai o ddisgyblion yr ysgol yn dathlu'r flwyddyn newydd Tseineaidd yn ddiweddar. Cafodd y plant gyfle i ddysgu mwy am hanes yr anifeiliaid a groesodd yr afon yn ogystal ag edrych ar yr wyddor Tseineaidd a chael cyfle i ysgrifennu ein henwau. Bu llawer o waith celf yn ystod yr wythnos, pawb wedi creu lanteri lliwgar i fynd adref. Dathlwyd yn nosbarth Tryfan drwy edrych ar gelf Tseineaidd, casglu gwybodaeth, datrys problemau adeiladu a mesur, a dysgu sut i ysgrifennu a dweud eu henw a ble maent yn byw yn Mandarin. Roedd y plant wrth eu boddau yn dysgu am ddathliad pwysig a herio eu hunain i fod yn ddinesydd gwybodus.

Yr Urdd
Mae plant dosbarth Idwal a Llywelyn wedi bod yn ffodus iawn o dderbyn sesiynau ffitrwydd a chwaraeon gyda'r Urdd. Mae Jordan, swyddog chwaraeon, wedi ymweld â ni yma yn Ysgol Tregarth yn wythnosol er mwyn datblygu hyder, sgiliau chwaraeon a sgiliau gwrando a chyd-weithio'r disgyblion. Rydym wedi cael llawer o hwyl yn y sesiynau, diolch yn fawr iawn i Jordan am ddod draw atom.

CROESAIR



I DDECHRAU

1 Fel cuchio efallai am nad yw Google yn rhoi'r ateb inni (4)
3 Symud wrth gerdded (4)
7 Lleidr pen-ffordd neu fôr-leidr (5)
8 Sudda enw da i'r gwaeod wrth fod yn aflednais a drwg (7)
10 Tamaid dwy dafell (7)
11 Awdl arobryn G.R.Tilsley 1950 (5)
12 Y wawr yn torri (5)
17 Swnio fel bwyta pwdin, ond mae'r wledd a baratowyd i gyd yma (5)
18 Gadael gorsaf o ddewis am symud yn drwsgl a thrwm (7)
19 Carchar Gwenllian yn Lloegr (7)
21 Bron iawn – llenyddol (5)
22 Blaendardd – geni o rhyw fath (4)
23 Y broses, ar lafar, o ddefnyddio brws a chadach a sugnwr llwch (4)

I LAWR

1 Yn ffyrnigo heb unrhyw stori i'r papur newydd (6)
2 "Hen linnell bell nad yw'n bod" (6)
3 Yr un melyn olaf o'r teulu (3)
4 Ffisig neu hen wasanaeth crefyddol i wella'r corff a'r enaid (6)
5 Y gellir yn hawdd ei goelio (8)
6 Ei gopa yn y cymylau yn gwmni i wrthrych 19 Ar Draws a'i thad (6,5)
9 Caneuon i fynegi cariad, fel 'Tra Bo Dau' (4)
11 Pwrpas seremoniau'r Gadair a'r Goron i'r prifeirdd (8)
13 I roi dewis rhyngddo â'r llall (4)
14 Ansawdd pridd eithaf trwm (6)
15 Dieithryn, fel dant-y-llew yn "Y Border Bach" gan Crwys (6)
16 Symudiad y moroedd (6)
20 Un o famau enwocaf mis Mawrth (3)

Atebion erbyn **7fed Ebrill 2023** fan bellaf (ni ellir ystyried y rhai sy'n cyrraedd yn hwyrach) i 'Croesair Mawrth', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD

ATEBION CROESAIR CHWEFROR 2023

AR DRAWS 1 Mwg, 3 Pader, 7 Gwledda, 8 Gwersi, 9 Gwyliadwrus, 11 Newid, 13 Siglo, 15 Lleian Llan-llŷr, 17 Gwadwr, 19 Annwyl, 20 Seoul, 21 Iot

I LAWR 1 Mawlgan, 2 Gwely, 3 Pig, 4 Daeareg, 5 Rasys, 6 Cariadon, 10 Distawaf, 12 Weindio, 14 Oerwynt, 15 Llawes/Llewys, 16 Llenwi, 18 Rîl

Weithiau mae un llythyren yn gwneud gwahaniaeth i ystyr gair. Dyna ddigwyddodd y tro yma yn 10 I Lawr. Roedd yr ateb cywir 'distawaf' yn anagram o'r geiriau 'fi wastad' yn y cliw. Ond mae nifer wedi rhoi 'distawach' yn ateb, ac un 'distawad' ; un llythyren fach yn newid yr ystyr ! Y llithriad arall oedd 'swpera' yn hytrach na'r ateb cywir 'gwledda' (7 Ar Draws).

Llongyfarchiadau i'r canlynol am anfon atebion cywir : Gill King, Mynydd Llandygai; Judith Hughes, Llangoed; Rosemary Williams, Dulcie Roberts, Elizabeth Buckley, Tregarth; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Doris Shaw, Ann Morris, Gaynor Elis-Williams; Rita Bullock, Bethesda; Huw a Gwenno, Gerlan; Barbara Jones, Talybont; David T. Hughes, Cyffordd Llandudno; M. A. Jones, Stella Dafis, Rachub; Medi Michael, Bangor; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Dilys Parry, Rhiwlas

Yr un sy'n cipio'r wobr a'r clod y tro yma yw Medi Michael, 9 Lôn y Meillion, Bangor, Gwynedd LL57 2LE. Da iawn chi.

JOHN ROBERTS
Paentiwr
Papurwr
Teilsiwr
Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

Londis Bethesda
☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus
a Swyddfa Bost
Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

post@llaisogwan.com

DAFYDD CADWALADR
Cynhyrchion Coedlannol
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed
01248 605207

Chwaraeon

Llwyddiant Dawnswraig Ifanc

Braf ydi gweld plant dawnus yn datblygu, a llwyddiant yn magu hyder. Dyna hanes Mili Jên Roberts o Droed y Foel, Carneddi ym myd y ddawns.

Disgybl 10 oed yn Ysgol Llanllechid ydi Mili ac mae hi'n mwynhau cerddoriaeth a pherfformio ers yn ddim o beth, a dawnsio ydi ei phrif bleser, Mae hi'n cael gwersi yn y gwahanol sgiliau yn Ysgol Ddawns Anti Karen yng Nghaernarfon, lle mae hi wrth ei bodd.

Bellach, mae Mili wedi cystadlu mewn nifer o gystadlaethau dawnsio, gan gynnwys Eisteddod Dyffryn Ogwen yn lleol, ac wedi crwydro dipyn i lwyfannau y tu allan i'r ardal – o Gricieth i Blackpool. Mae hi'n dawnsio mewn grŵp ac yn cael blas arbennig ar gystadlu yn unigol yn nghystadlaethau Cheerdance UK. Bu'n llwyddiannus yn Blackpool ac yn ddiweddar ym Manceinion.

Uchafbwynt i Mili oedd arwain y majorettes yng Ngharnifal Bethesda yr haf diwethaf, ac mae hi'n edrych ymlaen at garnifal eleni. Mae ymroi i'r dawnsio wedi bod o gymorth i Mili ar ôl iddi golli ei nain, ac mae hynny'n rhoi boddhad naturiol i'w rhieni.

Beth nesaf i'r ddawnswraig dalentog? Ar hyn o bryd, mae Mili yn edrych ymlaen i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd, a theithio i Lerpwl ac i Blackpool yn y misoedd nesaf.

Llwyddiant

Mae tair o enethod sy'n chwarae i dîm peldroed Ogwen Tigers wedi cael eu dewis i chwarae i Academi Genethod Gogledd Cymru, ac maent wedi chwarae eu gêm gyntaf dros yr hanner tymor yn erbyn Academi Gaer. Llongyfarchiadau i Millie Goode, Chrissy Rosser a Myla Williams a phob lwc i chi.

Ysgol Dyffryn Ogwen

Criced

Fe aeth tîm genethod o dan 13 a 15 i gystadlu yng nghystadleuaeth Criced Gogledd Cymru yng Nghanolfan Brailsford yn ddiweddar a braf oedd eu gweld nhw'n mwynhau cystadlu yn erbyn ysgolion eraill. Aeth y tîm o dan 15 i'r rownd derfynol ond colli oedd eu hanes yn y diwedd er eu hymdrechion hyd at y diwedd. Gwych genod.

Traws Gwlad

Llongyfarchiadau i Lili Williams o flwyddyn 7 ar ei llwyddiant yn y rasys traws gwlad ysgolion eleni. Llwyddodd i orffen yn 8fed yn rownd ysgolion Arfon ac yn 5ed yn rownd ysgolion Eryri er mwyn ennill lle yn nhîm Eryri ar gyfer pencampwriaethau Cymru! Pob lwc Lili!

Rygbi

Tîm bechgyn dan 13 yr ysgol wedi cystadlu yng nghystadlaethau rygbi Arfon yn ddiweddar ac wedi perfformio'n dda iawn. Y tîm wedi llwyddo i ennill 2 gêm a cholli 3 ar ddiwrnod cystadleuol iawn. Diolch i Sam Williams, blaenasgellwr RGC, am helpu efo'r hyfforddi.

Fe lwyddodd tîm rygbi ein genethod dan 14 i guro tair gem o 5 yng nghystadleuaeth Rygbi Ysgolion Arfon. Fe welwyd safon arbennig gan y tîm. Da iawn chi!